VS CYMRU VICTIM SUPPORT WALES | CYMRU

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Plant a phobl ifanc sydd wedi cael eu heffeithio gan droseddau casineb yng Nghymru

## Darpariaeth gyfredol o wasanaethau

Tamar Dinisman ac Ania Moroz

Mawrth 2020



www.victimsupport.org.uk

# Cydnabyddiaethau

Hoffem ddiolch i'r ymarferwyr o'r sefydliadau canlynol a fu'n rhan o'r cyfweliadau: Barnardo's Blaenau Gwent Aware, EYST Wales, Meic, Race Equality First, Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth, Stonewall Cymru, Travelling Ahead, Travelling Ahead: Cefnogaeth EUSS, Umbrella Cymru, a Chanolfan Riportio a Chymorth Troseddau Casineb Cenedlaethol Cymorth i Ddioddefwyr. Hoffem hefyd estyn ein diolch i'r sefydliadau a gwblhaodd yr arolwg ar-lein a'r rhai a helpodd i'w ddosbarthu.

# Cynnwys



**Cyflwyniad** .... 4
Methodoleg .... 5

**Y ddarpariaeth gyfredol a bylchau mewn gwasanaethau** .... 7
1. Math o ymyrraeth a dull cyflwyno .... 20
2. Cwmpas daearyddol .... 28
3. Delio â throseddau a digwyddiadau casineb mewn ysgolion .... 30

**Effaith troseddau a digwyddiadau casineb ar CYP** .... 32

**Cyfeiriadau** .... 35

**Atodiad: Adolygiad llenyddiaeth** .... 36



# Cyflwyniad

Gellir diffinio troseddau casineb fel "unrhyw drosedd y mae'r dioddefwr neu unrhyw berson arall yn eu hystyried fel troseddau sy'n cael eu cymell gan elyniaeth neu ragfarn, yn seiliedig ar anabledd neu anabledd canfyddedig unigolyn; hil neu hil ganfyddedig; neu grefydd neu grefydd ganfyddedig; neu gyfeiriadedd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol canfyddedig neu hunaniaeth drawsryweddol neu hunaniaeth drawsryweddol ganfyddedig". Gelwir yr agweddau hyn ar hunaniaeth unigolyn yn nodweddion gwarchodedig.[1] Mae rhai pobl hefyd yn cynnwys isddiwylliannau amgen fel nodwedd warchodedig[2] a chasineb at wragedd fel trosedd casineb.[3]

Mae digwyddiad casineb yn debyg i droseddau casineb o ran ei natur, ond mae'n ddigwyddiad nad yw'n cynnwys trosedd y mae'r dioddefwr neu unrhyw berson arall yn ei ystyried sy'n cael ei gymell gan elyniaeth neu ragfarn yn seiliedig ar nodweddion gwarchodedig unigolyn.[4]

Mae data gan amrywiol sefydliadau yn dangos cynnydd mewn troseddau casineb yn erbyn plant a phobl ifanc (CYP) yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn 2018, canfu'r NSPCC fod troseddau casineb hiliol yn erbyn plant wedi cyrraedd ei lefel uchaf mewn tair blynedd.[5] Yn yr un modd, mae data gan 29 o heddluoedd yng Nghymru a Lloegr yn dangos cynnydd rhwng 2015/16 a 2016/17 yn nifer y troseddau casineb a gafodd eu riportio i'r heddlu oedd wedi digwydd mewn ysgolion a cholegau neu'n agos atynt. Yn fwy penodol, dangosodd troseddau casineb a riportiwyd yn ymwneud â hunaniaeth drawsryweddol gynnydd o 167%, ac yna cyfeiriadedd rhywiol (cynnydd o 141%), anabledd (112%), ethnigrwydd (48%), a chrefydd neu gred (37%).[6] Serch hynny, gall ffigyrau gwirioneddol dioddefwyr ifanc fod yn llawer uwch, gan nad yw llawer o droseddau casineb yn cael eu riportio i'r heddlu.[7] Mae'r data hyn yn cynnwys troseddau casineb yn unig ac nid digwyddiadau.

Gall troseddau a digwyddiadau casineb fod ar sawl ffurf, gan gynnwys trais corfforol, bygythiadau o drais, difrod troseddol, a cham-drin geiriol neu sarhad.[8] Yn ogystal, mae pobl ifanc yn agored iawn i ddigwyddiadau casineb a throseddau ar-lein. Ynghyd â chynnydd llwyfannau cyfryngau cymdeithasol mae cynnydd esbonyddol mewn casineb seiber. Datgelodd ymchwil gyda phobl ifanc 15–18 mlwydd oed yn y Ffindir fod 67% yn cael eu hamlygu i ddeunydd casineb ar-lein a bod 21% wedi dioddef trosedd casineb ar-lein.[9] Mae poblogrwydd cyfryngau cymdeithasol hefyd yn golygu nad yw'r rhai sy'n cael eu targedu yn gallu dianc rhag eu hymosodwyr, hyd yn oed yn niogelwch eu cartrefi eu hunain.

Er gwaethaf y ffaith ei bod yn broblem gymdeithasol gynyddol, mae'r dystiolaeth am effaith troseddau casineb ar bobl ifanc yn gyfyngedig. Serch hynny, mae tystiolaeth anecdotaidd o Childline yr NSPCC yn dangos bod pobl ifanc sydd wedi dioddef bwlio ar sail hil a ffydd yn disgrifio teimladau o unigedd, tra bod eraill wedi hunan-niweidio neu wedi dweud nad oedden nhw eisiau mynd i'r ysgol mwyach oherwydd eu bod yn poeni am y gamdriniaeth bydden nhw'n ei hwynebu.[10] Mae mwy o wybodaeth am effaith troseddau casineb a digwyddiadau ar bobl ifanc yn cael ei chyflwyno yn ail adran yr adroddiad hwn, 'Effaith troseddau a digwyddiadau casineb ar CYP'.

Yn 2019, cychwynnodd Tîm Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru (LlC) ymchwil ar CYP (11–16 mlwydd oed) oedd wedi cael eu heffeithio gan droseddau casineb yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r canfyddiadau o gam cyntaf y prosiect, a oedd yn canolbwyntio ar fapio a disgrifio'r ddarpariaeth gyfredol a'r gefnogaeth sydd ar waith ar gyfer CYP rhwng 11 a 16 mlwydd oed sydd wedi cael eu heffeithio gan droseddau a digwyddiadau casineb yng Nghymru. Ei nod hefyd oedd tynnu sylw at unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth. Bydd rhan gyntaf yr adroddiad hwn yn cyflwyno'r ddarpariaeth gyfredol a'r bylchau a ganfuwyd yn y gwasanaethau. Bydd yr ail adran yn cyflwyno effaith troseddau casineb a digwyddiadau ar CYP yn seiliedig ar brofiad ymarferwyr. Mae adolygiad llenyddiaeth, sy'n crynhoi adroddiadau academaidd ac anacademaidd ar CYP sydd wedi cael eu heffeithio gan droseddau casineb yn cael ei ddarparu, yn yr Atodiad.

# Methodoleg

Defnyddiwyd tri dull i gasglu cymaint o wybodaeth â phosibl am y ddarpariaeth gyfredol o wasanaethau a'r gefnogaeth sydd ar waith ar gyfer CYP sydd wedi cael eu heffeithio gan droseddau a digwyddiadau casineb yng Nghymru: nodi'r holl wasanaethau perthnasol, arolwg ar-lein i gasglu gwybodaeth gan y gwasanaethau a nodwyd, a chyfweliadau manwl gydag ymarferwyr allweddol. Cynhaliwyd y gweithgareddau casglu data hyn rhwng Awst a Rhagfyr 2019.

Nodi'r holl wasanaethau perthnasol: I nodi'r holl wasanaethau perthnasol, fe wnaethom ddefnyddio chwiliad gwe a gwybodaeth gan ymarferwyr. Fe wnaethom gymryd agwedd eang ac edrych ar ystod eang o wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau ar gyfer CYP, gwasanaethau ar gyfer CYP penodol a/neu deuluoedd (ee LGBT, lleiafrifoedd ethnig, ac anableddau), gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar droseddau a digwyddiadau casineb, ac o'r sector addysg (ee cwnselwyr ysgol a/neu swyddogion lles). Cafodd gwasanaethau ledled y DU eu cynnwys hefyd er mwyn sefydlu a ydyn nhw'n cynnig gwasanaethau yng Nghymru. Yn ogystal, fe wnaeth y Ganolfan Riportio a Chymorth Troseddau Casineb Cenedlaethol Cymorth i Ddioddefwyr, gwahanol dimau yn Llywodraeth Cymru, a'r Gynghrair Gwrth-fwlio rhoi rhestrau i ni o'r gwasanaethau perthnasol maen nhw'n gysylltiedig â nhw neu'n eu comisiynu. Roedd y rhestr gychwynnol yn cynnwys 122 o wasanaethau a allai fod ag agweddau ar gefnogaeth i CYP sydd wedi cael eu heffeithio gan droseddau a digwyddiadau casineb yng Nghymru. Yna fe wnaethom nodi'r unigolyn/unigolion priodol ym mhob un o'r gwasanaethau a fyddai'n gallu darparu gwybodaeth i ni am y gwasanaeth.

Arolwg ar-lein: Anfonwyd arolwg ar-lein at yr holl wasanaethau a nodwyd yng ngham un. Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiynau am y gefnogaeth sy'n cael ei chynnig a'i darparu gan y gwasanaeth i CYP, eu cwmpas, a'u mewnwelediadau ar effaith troseddau a digwyddiadau casineb, ynghyd ag

enghreifftiau o wasanaethau yn lliniaru niwed. Cwblhaodd 35 o wasanaethau'r arolwg ar-lein, o'r rhain nodwyd bod 18 gwasanaeth yn darparu rhai agweddau ar gefnogaeth i CYP sydd wedi'u heffeithio gan droseddau a digwyddiadau casineb yng Nghymru. Dywedodd 14 gwasanaeth arall wrthym nad ydyn nhw'n darparu gwasanaethau i CYP ar droseddau casineb neu nad ydyn nhw'n darparu gwasanaethau yng Nghymru. Fe wnaethom hefyd nodi tri gwasanaeth arall – 'BulliesOut', 'Ditch the Label' a 'Llinell Gymorth EACH' – sy'n darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar fwlio i CYP yng Nghymru. Fodd bynnag, gan mai cwmpas yr ymchwil hon yw troseddau a digwyddiadau casineb, ni ellid eu cynnwys yn yr adroddiad.

Cyfweliadau ansoddol manwl gydag ymarferwyr: Er mwyn ennill gwybodaeth fanwl fe wnaethom gynnal deg cyfweliad ansoddol manwl gydag ymarferwyr o sefydliadau allweddol. Cynhaliwyd y cyfweliadau naill ai dros y ffôn neu wyneb yn wyneb. Nodwyd wyth o'r sefydliadau hyn yn seiliedig ar yr arolwg ar-lein a chysylltwyd â dau arall yn uniongyrchol ar sail gwybodaeth a ddarparwyd gan wasanaethau eraill. Cyfwelwyd ymarferwyr o'r gwasanaethau canlynol:

- Barnardo's Blaenau Gwent Aware
- EYST Cymru
- Meic
- Race Equality First
- Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth Cymru
- Stonewall Cymru
- Travelling Ahead
- Travelling Ahead: Cefnogaeth Cynllun Setliad yr UE (EUSS)
- Umbrella Cymru
- Canolfan Riportio a Chymorth Troseddau Casineb Cenedlaethol Cymorth i Ddioddefwyr.

Daw'r holl ddyfyniadau sy'n cael eu cyflwyno yn yr adroddiad hwn gan yr ymarferwyr a gafodd eu cyfweld. Mae'r dyfyniadau yn ddienw i gynnal anhysbysrwydd y sawl sydd wedi cael eu cyfweld.

Er y gwnaed pob ymdrech i gyrraedd pob un o'r gwasanaethau perthnasol, derbyniwyd gwybodaeth gan 37 o'r 122 o wasanaethau y cysylltwyd â nhw. Felly, rydym yn sylweddoli nad yw hyn o bosibl yn adlewyrchiad ar yr holl wasanaethau yng Nghymru.

Yn ogystal â hynny, fe wnaethom gynnal adolygiad llenyddiaeth i ennill sylfaen gadarn o wybodaeth am droseddau a digwyddiadau casineb ymhlith CYP, i ddarparu cyd-destun a throsolwg o waith yn y gorffennol a wnaed yn y DU a thramor. Mae'r adolygiad llenyddiaeth hwn ar gael yn yr Atodiad.



# Y ddarpariaeth gyfredol a bylchau mewn gwasanaethau

Fel y dangosir yn y tabl ar dudalennau 8–19, nodwyd bod 20 gwasanaeth yn cynnig rhai agweddau ar adnoddau cysylltiedig â throsedd casineb i CYP yng Nghymru. Serch hynny, dim ond tri gwasanaeth – Cymorth i Ddioddefwyr, yr Uned Ymateb Islamoffobia a Race Equality First – sy'n wasanaethau troseddau casineb pwrpasol. Mae Cymorth i Ddioddefwyr yn darparu ystod o gefnogaeth i rieni neu ofalwyr plant sydd wedi cael eu heffeithio gan bob math o droseddau a digwyddiadau casineb. Mae gan Race Equality First ystod o wasanaethau sy'n cynnwys codi ymwybyddiaeth mewn ysgolion ac yn y gymuned a swyddog gwaith achos gwahaniaethu a throseddau casineb sy'n rhoi cefnogaeth, cyngor, eiriolaeth a chymorth i ddioddefwyr troseddau casineb wrth riportio'r drosedd. Mae'r Uned Ymateb Islamoffobia yn llwyfan i ddioddefwyr troseddau casineb gwrth-Fwslimaidd riportio a rhannu eu profiadau, ac mae'n cynnig cymorth cyfreithiol, cyngor a gwasanaethau atgyfeirio i ddioddefwyr sy'n defnyddio'r llwyfan. Mae dau lwyfan riportio cenedlaethol arall yn y DU – Tell MAMA (ar gyfer dioddefwyr casineb gwrth-Fwslimaidd) a'r Ymddiriedolaeth Diogelwch Cymunedol (ar gyfer riportio gwrth-Semitiaeth) – ar gyfer troseddau a digwyddiadau casineb, ond ni wnaethant ymateb i'n hymchwiliad am y gwasanaethau maen nhw'n eu darparu. Felly, ni wyddom p'un a yw'r llwyfannau hyn ar gael i CYP yng Nghymru.

# Gwasanaethau sy'n cynnig rhai agweddau ar adnoddau sy'n gysylltiedig â throseddau casineb i CYP yng Nghymru

| | Enw'r gwasanaeth | Sefydliad | Lleoliad(au) | Math o ymyrraeth a dull cyflwyno | Cwmpas a gweithgareddau | Defnyddwyr gwasanaeth | Nodwedd(ion) gwarchodedig | Yn darparu gwasanaeth allgymorth | Mae'r gwasanaeth trwy gontract neu wedi'i gyfyngu o ran amser |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Canolfan Riportio a Chymorth Troseddau Casineb Cymorth i Ddioddefwyr Cymru | Cymorth i Ddioddefwyr Cymru | Gwasanaeth cenedlaethol (ledled Cymru) | Gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar droseddau casineb | **Mae'n darparu ystod o gefnogaeth gyfrinachol am ddim** (emosiynol, cyngor, gwybodaeth, eiriolaeth a chefnogaeth ymarferol) i **rieni neu ofalwyr â phlant sydd wedi cael eu heffeithio gan droseddau neu ddigwyddiadau casineb.** Mae hefyd yn darparu **hyfforddiant** i ymarferwyr ac yn **hyrwyddo ymwybyddiaeth** | Rhieni neu ofalwyr â phlant sydd wedi cael eu heffeithio gan droseddau casineb | Pob nodwedd | Ydy – darperir cefnogaeth mewn lleoliadau allgymorth | Ydy, tan 31/03/2021 |
| 2 | Uned Ymateb Islamoffobia (IRU) | MEND – Muslim Engagement and Development | Caerdydd, Abertawe a Chasnewydd | Gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar droseddau casineb | Mae'r IRU yn casglu ac yn monitro data ar Islamoffobia. **Mae'n llwyfan i ddioddefwyr riportio a rhannu eu profiadau. Mae hefyd yn cynnig cefnogaeth gyfreithiol, cyngor a gwasanaethau atgyfeirio.** Darperir cefnogaeth ar y ffôn neu wyneb yn wyneb | CYP a rhieni o'r gymuned Fwslimaidd | Hil, lliw, tarddiad ethnig, cenedligrwydd neu darddiad cenedlaethol | Ydy – yn ymweld ag ysgolion, yn cynnal arddangosfeydd am Islamoffobia. Yn cyflwyno gweithdai neu wasanaethau | Na |
| 3 | Race Equality First | Race Equality First | Gweithiwr achos troseddau casineb yng Nghaerdydd, Abertawe, Casnewydd, Bro Morgannwg. Gwaith ysgol a gwybodaeth arall, eiriolaeth a chodi ymwybyddiaeth – cenedlaethol | Gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar droseddau casineb.<br><br>Codi ymwybyddiaeth/ gweithgareddau mewn ysgolion | 1. **Mae swyddog gwaith achos gwahaniaethu a throseddau casineb yn rhoi cefnogaeth, cyngor, eiriolaeth a chymorth i ddioddefwyr troseddau casineb wrth riportio'r drosedd**<br>2. **Gweithdai mewn ysgolion i godi ymwybyddiaeth** o droseddau casineb<br>3. **Gwaith parhaus yn y gymuned** i godi ymwybyddiaeth o droseddau casineb a darparu gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth. Yn gweithio'n bennaf gyda chymunedau o leiafrifoedd ethnig/ diwylliannol | CYP, rhieni ac oedolion | Pob nodwedd, ond yn bennaf hil, lliw, tarddiad ethnig, cenedligrwydd neu darddiad cenedlaethol, crefydd neu gred | Gweithiwr achos – Dim ar hyn o bryd. Mae agweddau eraill y gwasanaeth yn cael eu hyrwyddo drwy ddigwyddiadau yn y gymuned | 1. Y gweithiwr achos troseddau casineb – tan 01/04/2021<br>2. Mae gweithdai mewn ysgolion yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru<br>3. Nid yw'r gwaith parhaus wedi'i gontractio |
| 4 | Travelling Ahead | Travelling Ahead | Gwasanaeth cenedlaethol (ledled Cymru) | Gwasanaethau cyffredinol (nad ydynt yn benodol i droseddau casineb) ar gyfer cymuned/grŵp agored i niwed | **Yn gweithio gyda'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr.** Mae'n darparu ystod o wasanaethau: cyngor, eiriolaeth, hawliau, cyfranogiad a mynd i'r afael â throseddau casineb a gwahaniaethu. **Ar gyfer troseddau casineb a gwahaniaethu: yn bennaf yn codi ymwybyddiaeth, yn annog ac yn helpu pobl i'w riportio a'u cyfeirio** at y sefydliadau cywir, Cymorth i Ddioddefwyr a swyddogion Cydlyniant Cymunedol yn bennaf | Oedolion a CYP o gymunedau Sipsiwn Roma a Theithwyr | Hil, lliw, tarddiad ethnig, cenedligrwydd neu darddiad cenedlaethol | Ydy – yn estyn allan ac yn cwrdd â phobl lle bynnag y bo angen | Ydy, tan 01/03/2020 |

| | Enw'r gwasanaeth | Sefydliad | Lleoliad(au) | Math o ymyrraeth a dull cyflwyno | Cwmpas a gweithgareddau | Defnyddwyr gwasanaeth | Nodwedd(ion) gwarchodedig | Yn darparu gwasanaeth allgymorth | Mae'r gwasanaeth trwy gontract neu wedi'i gyfyngu o ran amser |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **5** | Travelling Ahead: Cefnogaeth Cynllun Setliad yr UE (EUSS) | Travelling Ahead | Gwasanaeth cenedlaethol (ledled Cymru) | Gwasanaethau cyffredinol (nad ydynt yn benodol i droseddau casineb) ar gyfer cymuned/grŵp agored i niwed | Gwasanaeth i'r **gymuned Roma** yng Nghymru<br>1. Mae'n darparu ystod o wasanaethau i bobl ifanc ac oedolion **o'r gymuned Roma mewn ysgolion ac yn y gymuned i hyrwyddo eu hymgysylltiad â'r gymuned ehangach** ac i'w grymuso. **Hefyd, gall gynorthwyo gyda materion gwahaniaethu a throseddau casineb trwy ddarparu gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth. Cyfeirio at sefydliadau eraill ac yn cynorthwyo i gyrchu eu gwasanaethau**<br>2. Yn cefnogi pobl i wneud cais i Gynllun Setliad yr UE ac amddiffyn eu hawliau ar ôl Brexit | CYP ac oedolion o'r gymuned Roma | Hil, lliw, tarddiad ethnig, cenedligrwydd neu darddiad cenedlaethol | Ydy – yn estyn allan ac yn cwrdd â phobl lle bynnag y bo angen | Ydy, tan 31/03/2020 |
| **6** | Cydlynydd Cydlyniant Cymunedol y Cyngor | Rhaglen Cydlyniant Cymunedol Llywodraeth Cymru | Abertawe a Sir Castell-nedd Port Talbot | Gwasanaethau cyffredinol (nad ydynt yn benodol i droseddau casineb) ar gyfer cymuned/grŵp agored i niwed | **Yn cynorthwyo i nodi a lliniaru tensiynau cymunedol, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â throseddau casineb. Ymgysylltiad rheolaidd â grwpiau sy'n agored** i aflonyddu a monitro tensiynau cymunedol. **Mae swyddogion Cydlyniant Cymunedol yn darparu cyngor, gwybodaeth, arweiniad a chefnogaeth, yn helpu i riportio troseddau casineb ac yn cynnal gweithdai mewn ysgolion** | CYP a rhieni | Pob nodwedd | Ydy – darperir cefnogaeth lle bo angen: ee mewn canolfannau cymunedol, ysgolion, canolfannau ieuenctid a chartrefi dioddefwyr | Ydy, tan 30/04/2020 |
| **7** | SNAP Cymru | SNAP Cymru | Gwasanaeth cenedlaethol (ledled Cymru) gyda rhai ardaloedd yn prynu dim ond un neu ddau o'r gwasanaethau a gynigir | Gwasanaethau cyffredinol (nad ydynt yn benodol i droseddau casineb) ar gyfer cymuned/grŵp agored i niwed | Mae'n cynnig gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth a hyfforddiant rhad ac am ddim ac annibynnol i helpu i gael yr addysg gywir ar gyfer CYP gyda phob math o anghenion addysgol ac anableddau arbennig. **O ran troseddau casineb – nid yw cwmpas y gwasanaeth wedi'i anelu'n benodol at ddioddefwyr troseddau casineb, ond mae'n aml yn cwrdd â dioddefwyr trwy ei waith ac yn darparu cefnogaeth yn ôl yr angen, gan gynnwys gweithio gyda'r CYP, y teulu a'r ysgol** | CYP ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau a'u rhieni | Anabledd yn bennaf | Ydy – yn teithio i gartrefi ac ysgolion | Ydy, tan 31/03/2020 |


| | Enw'r gwasanaeth | Sefydliad | Lleoliad(au) | Math o ymyrraeth a dull cyflwyno | Cwmpas a gweithgareddau | Defnyddwyr gwasanaeth | Nodwedd(ion) gwarchodedig | Yn darparu gwasanaeth allgymorth | Mae'r gwasanaeth trwy gontract neu wedi'i gyfyngu o ran amser |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 8 | Mermaids | Mermaids | Mae'r llinell gymorth yn wasanaeth cenedlaethol (ledled Cymru) | Gwasanaethau cyffredinol (nad ydynt yn benodol i droseddau casineb) ar gyfer cymuned/grŵp agored i niwed | Mae Mermaids yn darparu **llinell gymorth gyda'r nod o gefnogi ieuenctid trawsryweddol** hyd at ac yn cynnwys 19 mlwydd oed, eu teuluoedd a'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda nhw. **Er nad yw'n canolbwyntio'n uniongyrchol ar droseddau casineb, mae'r llinell gymorth yn cynnig cefnogaeth emosiynol, gwybodaeth a chyngor, gan gyfeirio at hyfforddiant ac adnoddau.** Darperir fforymau ieuenctid a rhieni a hyfforddiant i weithwyr proffesiynol hefyd | CYP Trawsryweddol a'u rhieni | Hunaniaeth rhyw a chyfeiriadedd rhywiol | Na | Dim gwybodaeth |
| 9 | Academi Cyfryngau Caerdydd (MAC) | Academi Cyfryngau Caerdydd (MAC) | Caerdydd | Gwasanaethau cyffredinol (nad ydynt yn benodol i droseddau casineb) ar gyfer cymuned/grŵp agored i niwed | Mae Academi Cyfryngau Caerdydd yn rhedeg llawer o brosiectau amrywiol ledled De Cymru. **Yn gweithio gyda phobl ifanc nad ydyn nhw mewn addysg, hyfforddiant, dysgu na chyflogaeth, gan ddefnyddio cyfryngau amrywiol. Yn darparu cefnogaeth ynghylch troseddau casineb pan fo angen** | CYP 11+, yn bennaf y rhai nad ydyn nhw mewn addysg, hyfforddiant, dysgu na chyflogaeth | Pob nodwedd | Ydy – yn gweld CYP mewn cymunedau ac yn eu cartrefi eu hunain | Ydy, tan 01/05/2022 |
| 10 | Canolfan gymunedol galw heibio – Cymdeithas Tsieineaidd yng Nghymru | Cymdeithas Tsieineaidd yng Nghymru | Abertawe | Gwasanaethau cyffredinol (nad ydynt yn benodol i droseddau casineb) ar gyfer cymuned/grŵp agored i niwed | **Canolfan gymunedol galw heibio** sy'n darparu iaith, eiriolaeth a chyfeirio achosion. Mae hefyd yn trefnu gweithgareddau cymdeithasol ac addysgol. **Er nad yw'n canolbwyntio'n uniongyrchol ar droseddau casineb, gall ddarparu cefnogaeth, cyngor ac atgyfeiriadau** | CYP a rhieni o'r gymuned Tsieineaidd | Hil, lliw, tarddiad ethnig, cenedligrwydd neu darddiad cenedlaethol | Ydy – yn darparu eiriolaeth ac yn trefnu gweithgareddau mewn gwahanol leoedd | Na |
| 11 | EYST Cymru | EYST Cymru | De-ddwyrain Cymru. Yn bennaf o amgylch Caerdydd, Abertawe a Chasnewydd | Gwasanaethau cyffredinol (nad ydynt yn benodol i droseddau casineb) ar gyfer cymuned/grŵp agored i niwed<br><br>Codi ymwybyddiaeth/ gweithgareddau mewn ysgolion | Yn rhedeg gwasanaethau mewn tri phrif faes – eithafiaeth grefyddol, eithafiaeth de-eithaf, camfanteisio ar blant. **Gweithdai a hyfforddiant i bobl ifanc i godi ymwybyddiaeth o risgiau a datblygu eu gwytnwch. Ac roedd gwaith un i un gyda BME CYP mewn perygl yn gysylltiedig â'u hunaniaeth, crefydd a'u perthnasoedd.** Nid yw'r gwaith yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar droseddau casineb – fel **rhan o'r gweithdai, codir ymwybyddiaeth o ganfyddiad a rhagfarn hiliol, teimladau negyddol ar ymfudwyr, defnyddio iaith**. Nid yw'n cefnogi CYP mewn perthynas â throseddau casineb, ond **gall profiadau o'r fath ddod i'r amlwg yn y gwaith un i un** | CYP rhwng 11 a 25 mlwydd oed | Hil, lliw, tarddiad ethnig, cenedligrwydd neu darddiad cenedlaethol | Ydy – yn mynd i leoliadau os bydd ysgolion a sefydliadau eraill yn gwneud cais am hynny | Ydy, daeth prosiect 3 blynedd i ben ym mis Rhagfyr 2019. Wedi'i ariannu ar gyfer gwaith ychwanegol ar wrth-hiliaeth gan Lywodraeth Cymru |

| | Enw'r gwasanaeth | Sefydliad | Lleoliad(au) | Math o ymyrraeth a dull cyflwyno | Cwmpas a gweithgareddau | Defnyddwyr gwasanaeth | Nodwedd(ion) gwarchodedig | Yn darparu gwasanaeth allgymorth | Mae'r gwasanaeth trwy gontract neu wedl'i gyfyngu o ran amser |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 12 | Stonewall Cymru | Stonewall | Gwasanaeth cenedlaethol (ledled Cymru). Serch hynny, mae'r gwaith mewn ysgolion yn dibynnu ar ysgolion yn comisiynu'r gwasanaeth | Gwasanaethau cyffredinol (nad ydynt yn benodol i droseddau casineb) ar gyfer cymuned/grŵp agored i niwed<br>Codi ymwybyddiaeth/ gweithgareddau mewn ysgolion | 1. **Gwasanaeth gwybodaeth ar gyfer CYP LGBT+ a'u rhieni, gan gynnwys gwybodaeth am droseddau casineb. Gwasanaeth cyfeirio i sefydliadau eraill**<br>2. Rhaglen rymuso nad yw'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â materion troseddau casineb. **Mae modelau rôl LGBT+ yn mynd i mewn i ysgolion i siarad am eu profiadau; gallai'r rhain gynnwys troseddau casineb** a gwahaniaethu, a fydd yn codi ymwybyddiaeth o'r materion hynny<br>3. **Ymgyrchu gwrth-fwlio i godi ymwybyddiaeth am faterion casineb LGBT+** a sut i fynd i'r afael â hyn trwy ddeunyddiau a anfonir i ysgolion<br>4. **Hyfforddiant i athrawon i hyrwyddo cynhwysiant LGBT+, mynd i'r afael â bwlio a throseddau casineb LGBT+**<br>5. Gweithio gydag **ysgolion** ar eu **polisi ar LGBT+ a throseddau casineb LGBT+**<br>6. **Gwaith polisi gydag Estyn** (Prif Arolygydd Ei Mawrhydi ar Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru) ar sut i archwilio a monitro cynhwysiant LGBT+, troseddau casineb a bwlio LGBT+ | Pobl ifanc LGBT+ a'u rhieni, athrawon ysgolion uwchradd ac ysgolion | Hunaniaeth rhyw a chyfeiriadedd rhywiol | Na | Ydy, mae'r gwasanaeth gwybodaeth yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd tan 30/04/20 |
| 13 | Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgol Cymru i gyd (AWSLCP) SchoolBeat | AWSLCP | Gwasanaeth cenedlaethol (ledled Cymru) | Codi ymwybyddiaeth/ gweithgareddau mewn ysgolion | **Yn cyflwyno gwersi a gwasanaethau mewn ysgolion sy'n canolbwyntio ar atal troseddau.** Yn ogystal â gwersi, mae Swyddogion Heddlu Cymunedol Ysgolion hefyd yn cyflwyno cyflwyniadau a gwasanaethau byr; un o'r pynciau dan sylw yw codi ymwybyddiaeth o droseddau casineb | CYP mewn ysgolion 5–16 mlwydd oed | Pob nodwedd | Na | Ydy, tan 31/03/2020 |
| 14 | Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth Cymru | Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth Cymru | Gwasanaeth cenedlaethol (ledled Cymru), ond a gomisiynwyd yn bennaf yn Ne Cymru | Codi ymwybyddiaeth/ gweithgareddau mewn ysgolion | Yn darparu **addysg gwrth-hiliaeth** mewn ysgolion a lleoliadau eraill. **Gweithdai, hyfforddiant a phrosiectau tymor hwy yn bennaf ar gyfer newid trawsnewidiol**. Fel arfer gweithdy unwaith ac am byth sy'n para hyd at ddiwrnod | CYP a gweithwyr proffesiynol | Hil, lliw, tarddiad ethnig, cenedligrwydd neu darddiad cenedlaethol, crefydd neu gred | Na | Wedi'i ariannu'n bennaf gan gynghorau a grant Cronfa'r Loteri Fawr, a fydd yn dod i ben ar 16/09/2020 |

| | Enw'r gwasanaeth | Sefydliad | Lleoliad(au) | Math o ymyrraeth a dull cyflwyno | Cwmpas a gweithgareddau | Defnyddwyr gwasanaeth | Nodwedd(ion) gwarchodedig | Yn darparu gwasanaeth allgymorth | Mae'r gwasanaeth trwy gontract neu wedi'i gyfyngu o ran amser |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 15 | Barnardo's Blaenau Gwent Aware | Barnardo's | Blaenau Gwent | Codi ymwybyddiaeth/ gweithgareddau mewn ysgolion | **Yn darparu gweithdai a gwasanaethau i bobl ifanc mewn ysgolion uwchradd, gan godi ymwybyddiaeth** o droseddau casineb sy'n cael eu cymell gan **anabledd**. Yn cynnal grwpiau ffocws gyda CYP mewn ysgolion i **gynhyrchu adnodd addysgu ar droseddau casineb wedi'i gymell gan anabledd i'w gyflwyno** ar draws ysgolion yn Blaenau Gwent | Plant ysgol uwchradd | Anabledd | Na | Ydy, tan 31/03/2020 |
| 16 | Prosiect SELMA (Dysgu Cymdeithasol ac Emosiynol ar gyfer Ymwybyddiaeth Gydfuddiannol) | SWGfL | Mae pecynnau cymorth ac adnoddau ar gael ar-lein | Codi ymwybyddiaeth/ gweithgareddau mewn ysgolion | Prosiect dwy flynedd wedi'i gyd-ariannu gan y Comisiwn Ewropeaidd oedd â'r nod o **fynd i'r afael â phroblem lleferydd casineb ar-lein trwy hyrwyddo ymwybyddiaeth, goddefgarwch a pharch rhwng y naill a'r llall.** Mae'n darparu pecynnau cymorth ac adnoddau ar gyfer athrawon a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda CYP, yn bennaf ar gyfer yr ysgol | Athrawon (a gweithwyr proffesiynol eraill yn bennaf) sy'n gweithio gyda CYP | Pob nodwedd | Na | Daeth i ben ar 31/12/2019 |
| 17 | Meic | Yn cael ei redeg gan bartneriaeth o bum sefydliad (Plant yng Nghymru, Tros Gynnal Plant, Voices from Care Cymru, y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol a ProMo-Cymru) | Gwasanaeth cenedlaethol (ledled Cymru) | Gwasanaeth cyffredinol (nid yn benodol i droseddau casineb) ar gyfer CYP yn unig | **Gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth** am ddim, yn gyfrinachol ac, os dymunir, yn ddienw. **Gwasanaeth llinell gymorth ddwyieithog ar gyfer CYP ledled Cymru.** Yn **cael ei gyflwyno bob dydd** rhwng 8am a hanner nos dros y ffôn, negeseuon gwib neu neges destun. **Gwasanaeth cyffredinol sy'n cael ei arwain gan blant** yn cwmpasu unrhyw beth a phopeth y mae CYP yn dymuno siarad amdano neu angen gwybodaeth amdano. Mae'n darparu gwybodaeth, yn cyfeirio at wasanaethau eraill ac yn cynnwys mynediad at eiriolwr proffesiynol annibynnol. **Nid yw'n canolbwyntio ar droseddau casineb ond yn gallu darparu gwasanaethau i ddioddefwyr – fodd bynnag, anaml y cysylltir â nhw ynghylch troseddau casineb** | CYP hyd at 25 mlwydd oed | Pob nodwedd | Na | Ydy, yn mynd i dendr ar 31/03/2020 |

| | Enw'r gwasanaeth | Sefydliad | Lleoliad(au) | Math o ymyrraeth a dull cyflwyno | Cwmpas a gweithgareddau | Defnyddwyr gwasanaeth | Nodwedd(ion) gwarchodedig | Yn darparu gwasanaeth allgymorth | Mae'r gwasanaeth trwy gontract neu wedi'i gyfyngu o ran amser |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **18** | Gwasanaeth Lles Emosiynol | Newid Tyfu Byw | Caerdydd a Bro Morgannwg | Gwasanaeth cyffredinol (nid yn benodol i droseddau casineb) ar gyfer CYP yn unig | **Yn darparu ymyrraeth gynnar ar gyfer lles emosiynol mewn CYP.** Nid yw'n cynnig gwaith yn benodol ar droseddau casineb ond mae'n darparu grwpiau therapiwtig a chefnogaeth un i un lle gellir siarad am droseddau casineb | CYP rhwng 10 a 18 mlwydd oed | Pob nodwedd | Ydy – mewn meddygfeydd, ysgolion, cartrefi, unrhyw leoliad cymunedol | Mae'r gwasanaeth yn cael ei gomisiynu ond dim gwybodaeth ar y dyddiad dod i ben |
| **19** | Umbrella Cymru | Umbrella Cymru | Ar gael yn gyffredinol ledled Cymru, ond mae'r ffaith bod y sefydliad wedi'i leoli yn Ne-ddwyrain Cymru yn cael ei adlewyrchu yn y gyfran uwch o ddefnyddwyr gwasanaeth o Dde Cymru. Cymorth gwahanol ar gael i'r rheini o Ogledd Cymru (efallai na fydd yn cynnwys cefnogaeth un i un) | Gwasanaeth cyffredinol (nid yn benodol i droseddau casineb) ar gyfer CYP yn unig | **Mae'n darparu cefnogaeth i bobl LGBT+ ifanc, nid yw'n canolbwyntio ar droseddau casineb ond gall gwmpasu troseddau casineb, trais a cham-drin LGBT+.** Mae'r gwasanaeth yn hyblyg o ran y gwasanaethau a ddarperir, amseroedd a hyd. Yn dibynnu ar anghenion y person ifanc, gall ddarparu cefnogaeth un i un, cefnogaeth i deuluoedd, gwaith a hyfforddiant mewn ysgolion ac eiriolaeth. **Darperir cefnogaeth gan fyfyrwyr gwaith cymdeithasol** | CYP LGBT+, plant ysgol uwchradd yn bennaf | Hunaniaeth rhyw a chyfeiriadedd rhywiol | Ydy – yn cwrdd â defnyddwyr y gwasanaeth lle bo angen. Weithiau bydd yn mynychu digwyddiadau i hyrwyddo'r gwasanaeth | Na |
| **20** | Childline | NSPCC | Ledled y DU | Gwasanaeth cyffredinol (nid yn benodol i droseddau casineb) ar gyfer CYP yn unig | **Gwasanaeth ffôn ac ar-lein cyfrinachol, rhad ac am ddim 24/7 ar gyfer CYP**, a ddarperir gan staff cymwys a chwnselwyr gwirfoddol. **Nid yw'n benodol ar gyfer troseddau casineb ond gall ddarparu cefnogaeth ar gyfer CYP sydd wedi cael eu heffeithio gan droseddau casineb** | CYP dan 19 mlwydd oed | Pob nodwedd | Na | Na |

Fel y gwelir yn Ffigur 1 isod, o'r 20 gwasanaeth a nodwyd, mae naw yn mynd i'r afael â'r holl nodweddion gwarchodedig, mae chwe gwasanaeth yn canolbwyntio ar hil, lliw, tarddiad ethnig, cenedligrwydd neu darddiad cenedlaethol, mae tri gwasanaeth arall wedi'u neilltuo i hunaniaeth rhyw a chyfeiriadedd rhywiol, a dau wasanaeth ychwanegol i anabledd.



Ffigur 1


Defnyddiwyd dwy agwedd i gyflwyno a thrafod y ddarpariaeth gyfredol a'r bylchau mewn gwasanaethau: 1) math o ymyrraeth a dull cyflwyno, a 2) cwmpas daearyddol.

Yn ogystal â hynny, er bod y ffordd mae ysgolion yng Nghymru yn delio â throseddau a digwyddiadau casineb y tu allan i gwmpas cam cyfredol yr ymchwil hon, fe'i codwyd fel mater gan nifer sylweddol o'r ymarferwyr a gafodd eu cyfweld ar gyfer yr adroddiad hwn. Felly, er mwyn codi ymwybyddiaeth am y mater hwn ac annog archwiliad pellach, rydym wedi cynnwys barn yr ymarferwyr ar y mater hwn yn yr adroddiad hwn.

# 1. Math o ymyrraeth a dull cyflwyno

## Darpariaeth gyfredol

O edrych ar y dull cyflwyno a ddefnyddir gan yr 20 gwasanaeth (Ffigur 2 isod) a nodwyd, mae 13 gwasanaeth yn darparu cymorth wyneb yn wyneb a dros y ffôn uniongyrchol i CYP, mae tri gwasanaeth arall – Meic, Childline a Mermaids – yn llinellau cymorth lle darperir gwasanaethau dros y ffôn neu ar-lein yn unig, ac mae saith gwasanaeth arall yn darparu gweithdai a gweithgareddau eraill mewn ysgolion.[i]



Ffigur 2

i Mae'r cyfanswm yn fwy nag 20 gan fod tri gwasanaeth – Race Equality First, EYST Wales a Stonewall Cymru – yn darparu gweithdai wyneb yn wyneb ac mewn ysgolion.

Fe wnaethom nodi ymhellach bedwar prif gategori o fath ymyrraeth a dull cyflwyno y gellir eu defnyddio i ddosbarthu'r 20 gwasanaeth (er bod hwn yn is-adran amrwd, mae'n caniatáu i ni dynnu sylw at y prif agweddau a gwasanaethau sydd ar gael i CYP sydd wedi cael eu heffeithio gan droseddau a digwyddiadau casineb yng Nghymru):

1. Gwasanaethau cyffredinol (nad ydynt yn benodol i droseddau casineb) ar gyfer cymuned/grŵp agored i niwed
2. Codi ymwybyddiaeth a gweithgareddau mewn ysgolion
3. Gwasanaethau cyffredinol (nad ydynt yn benodol i droseddau casineb) ar gyfer CYP yn unig
4. Gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar droseddau casineb.

Cyflwynir y dosbarthiad i'r pedwar prif gategori o fathau a dulliau ymyrraeth yn Ffigur 3 isod. Mae gan dri gwasanaeth – Race Equality First, EYST Cymru a Stonewall Cymru – fwy nag un prif fath a dull ymyrraeth. Mae EYST Cymru a Stonewall Cymru wedi'u cynnwys yn y gwasanaethau cyffredinol (nad ydynt yn benodol i droseddau casineb) ar gyfer cymuned/grŵp agored i niwed a chodi ymwybyddiaeth a gweithgareddau mewn ysgolion. Mae gan Race Equality First elfennau codi ymwybyddiaeth a gweithgareddau mewn ysgolion a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar droseddau casineb.

## Categorïau math o ymyrraeth a dulliau cyflwyno

- Gwasanaethau cyffredinol (nad ydynt yn benodol i droseddau casineb) ar gyfer cymuned/grŵp sy'nagored i niwed
- Codi ymwybyddiaeth a gweithgareddau mewn ysgolion
- Gwasanaethau cyffredinol (nad ydynt yn benodol i droseddau casineb) ar gyfer CYP yn unig
- Gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar droseddau casineb




Ffigur 3

Mae'r categori cyntaf yn cynnwys gwasanaethau cyffredinol (nad ydynt yn benodol i droseddau casineb) sy'n cefnogi cymuned neu grŵp agored i niwed. Mae naw gwasanaeth wedi'u cynnwys yn y categori hwn: Travelling Ahead, Travelling Ahead: Cefnogaeth EUSS, SNAP Cymru, Mermaids, Academi Cyfryngau Caerdydd (MAC), canolfan gymunedol Galw Heibio – Cymdeithas Tsieineaidd yng Nghymru, EYST Cymru, Stonewall Cymru, a chydlynydd Cydlyniant Cymunedol y Cyngor o Abertawe a Sir Castell-nedd Port Talbot[ii].

Er bod y naw gwasanaeth hyn yn wahanol iawn, maen nhw i gyd wedi'u hanelu at gymuned neu grŵp agored i niwed penodol ac yn darparu ystod o wasanaethau i ddiwallu anghenion y gymuned neu'r grŵp hwn. Nid yw'r gwasanaethau hyn yn benodol i droseddau casineb, ond wrth gefnogi pobl o grwpiau a chymunedau agored i niwed maen nhw'n dod ar draws CYP o'r grwpiau hyn sy'n cael eu heffeithio gan droseddau a digwyddiadau casineb. Yn yr achosion hyn, byddant yn cynnig cefnogaeth, gwybodaeth, cyngor, eiriolaeth, cyfeirio a chymorth wrth riportio, ar wahanol lefelau yn dibynnu ar alluoedd a nodweddion pob gwasanaeth. Mae Mermaids yn eithriad, o ystyried ei fod yn llinell gymorth; mae'r holl wasanaethau eraill hefyd yn cynnig cyfarfodydd wyneb yn wyneb i'w defnyddwyr gwasanaethau.

ii Mae'n ymddangos bod gwahaniaethau yn y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan gydlynwyr Cydlyniant Cymunedol y Cyngor yn y gwahanol siroedd. Fe wnaethon ni gysylltu â chydlynwyr pob un o'r wyth sir yng Nghymru, ond dim ond tri chydlynydd – yn Abertawe a Castell-nedd Port Talbot, Ynys Môn, a Sir Gaerfyrddin – a ymatebodd i'n cais am wybodaeth, ac o'r rhain dim ond cydlynydd Sir Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot sy'n darparu cefnogaeth i CYP ar droseddau a digwyddiadau casineb. Felly nid yw'n eglur pa wasanaeth sy'n cael ei ddarparu yn y pum sir arall na wnaeth ymateb i'n cais am wybodaeth.

Daethom ar draws ychydig o enghreifftiau o sut y gall y math hwn o wasanaeth liniaru effaith niweidiol troseddau casineb trwy rymuso CYP, eu cynorthwyo ar sut i ymateb i ddigwyddiadau a'u helpu i riportio troseddau a digwyddiadau casineb:

*"[Rydyn ni'n cynnig] Help i bobl ifanc i siarad amdano gyda rhywun mewn ffordd fwy manwl. Pan fyddwch chi'n cael sgyrsiau gyda nhw rydych chi'n dysgu am ddigwyddiadau pan aethon nhw i ymladd a phethau felly, ynghylch eu [nodweddion amddiffynnol] a gallwch chi gael deialog fwy ystyriol am hyn a'u hymatebion. Nid ydyn nhw'n gwybod sut i ymateb, mae angen eu grymuso i ymateb mewn ffordd wahanol, a sut i'w riportio. Mae llawer o bobl yn credu na fydd yr heddlu yn eu cymryd o ddifrif. Hefyd, rydyn ni fel sefydliad yn cael synnwyr o ble mae pethau'n digwydd."*

*"Rydym yn cynnal fforymau ieuenctid sy'n rhoi cyfleoedd i'r plant ddysgu sut i riportio troseddau casineb, mae hyn yn rhoi'r offer i blant deimlo eu bod yn gallu riportio."*

*"[Rydym] Yn codi ymwybyddiaeth o droseddau casineb yn y gymuned. Helpu i dorri rhwystr iaith i riportio troseddau casineb. Cyfeirio at y gefnogaeth y gallent ei chyrchu."*

Roedd eraill yn cydnabod cryfder darparu gwybodaeth sy'n berthnasol i'r grŵp penodol o ddefnyddwyr gwasanaeth:

*"Prif gryfder y gwasanaeth yw ei fod yn llwybr lle gall pobl LGBT+ sy'n cael eu heffeithio gan droseddau casineb, gwahaniaethu neu anghyfiawnderau ein ffonio a chael ymagwedd sy'n benodol i LGBT+ tuag at [y] gwasanaethau a all eu helpu yn yr ardaloedd hynny. Galluogi pobl i gael y wybodaeth maen nhw ei hangen ynglŷn â gwasanaethau cymorth."*

Mae'r ail gategori o fath a dull ymyrraeth yn cynnwys gwasanaethau lle mae'r ffocws ar godi ymwybyddiaeth a gweithgareddau mewn ysgolion. Nodwyd bod saith gwasanaeth yn cynnig gweithgareddau mewn ysgolion a'u nod yw codi ymwybyddiaeth o droseddau casineb a materion cysylltiedig, megis canfyddiad a rhagfarn hiliol, addysg gwrth-hiliaeth, a materion casineb LGBT+. Y rhain yw: Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan (AWSLCP) SchoolBeat, Barnardo's Blaenau Gwent Aware, EYST Cymru, Prosiect SELMA, Race Equality First, Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth Cymru, a Stonewall Cymru.

Mae'r gwasanaethau hyn yn cyflwyno ystod o wersi, gweithdai a gwasanaethau mewn ysgolion ac maen nhw hefyd yn cynhyrchu adnoddau addysgu a phecynnau cymorth. Pwysleisiodd yr ymarferwyr fod y gweithgareddau hyn yn lliniaru effaith niweidiol troseddau casineb trwy gynyddu dealltwriaeth CYP o faterion troseddau casineb, a'u gallu i'w gydnabod a chydnabod nhw eu hunain fel dioddefwyr a/neu gyflawnwyr:

*"Bydd gan blant ddealltwriaeth o'r iaith y gallant ei defnyddio ac yn aml byddant yn defnyddio'r iaith hon heb wybod eu bod yn sarhaus ac wedi hynny [y gweithdy] bydd newid i'w dealltwriaeth o beth yw hiliaeth a byddant yn gallu ei hadnabod. Hefyd herio stereoteipiau a chreu amgylchedd lle mae pobl ifanc yn herio eu barn ac yn gallu bod yn agored am bethau."*

Dywedodd yr ymarferwyr wrthym sut mae'r gwaith mewn ysgolion yn helpu dioddefwyr i'w nodi nhw eu hunain yn ddioddefwyr troseddau casineb ac estyn allan am gymorth. Mewn rhai achosion, gall fod yn ddechrau proses a fydd yn rhoi'r gorau i'r gamdriniaeth ac yn darparu cefnogaeth i'r plentyn; fodd bynnag, mae'n dibynnu ar barodrwydd yr ysgol i gymryd y camau hynny:

*"Roedd yna un plentyn sydd wedi cael ei [erlid] ers nifer o flynyddoedd, a daeth hynny i fyny yn ystod y gweithdy. Rhoddodd ei law i fyny a dywedodd 'ie, mae'r plant i gyd yn fy*

*ngalw i'n hyn' ac fe aethom ag ef i'r ystafell staff a gofynnodd y pennaeth i'r plentyn 'pam na wnest ti ddweud wrthym yn gynt?' A dywedodd y plentyn 'Doeddwn i ddim yn gwybod beth oedd o nes iddo gael ei egluro'."*

*"Mae llawer o'r plant rydyn ni wedi gweithio gyda nhw yn y grwpiau ffocws neu sydd wedi rhoi eu dwylo i fyny mewn gwasanaethau nad ydynt wedi sylweddoli eu bod nhw wedi dioddef trosedd casineb. Maen nhw'n dweud – 'o, digwyddodd hynny i mi'. Felly, nid yw'n cael ei riportio."*

Mae'r gweithgareddau yn yr ysgolion hefyd yn helpu'r ysgolion a'r athrawon i gydnabod bod troseddau casineb yn broblem sy'n effeithio ar eu myfyrwyr:

*"Fe wnaethon ni ddarganfod bod ysgolion wedi cael sioc fawr gan y gwasanaethau. Mewn un ysgol fe wnaethon nhw ddweud – 'nid oedd unrhyw un o'n plant wedi dioddef troseddau casineb, dydy hynny erioed wedi digwydd, nid yw'n digwydd yma'. Wel efallai nad yw'n digwydd yn yr ysgol, ond maen nhw'n digwydd y tu allan i'r ysgol, a thrwy beidio â'i gydnabod, does dim llwybr iddyn nhw siarad amdano a chael cefnogaeth. Felly, mae codi ymwybyddiaeth gyda staff hefyd yn ddefnyddiol."*

Mae pedwar gwasanaeth wedi'u cynnwys yn y trydydd categori. Mae'r rhain yn wasanaethau cyffredinol, nad ydynt yn benodol ar gyfer troseddau casineb, ar gyfer CYP yn unig. Mae un gwasanaeth – Umbrella Cymru – yn canolbwyntio ar CYP LGBT+, ac mae'r tri arall yn mynd i'r afael â'r holl CYP. Er bod y pedwar gwasanaeth yn canolbwyntio ar CYP, maen nhw'n cynnig cefnogaeth a dulliau gwahanol iawn: mae dau wasanaeth – Meic a Childline – ar-lein ac mae ganddynt linellau cymorth ffôn i CYP i ddarparu gwybodaeth, cyngor, eiriolaeth a chefnogaeth; mae'r Gwasanaeth Lles Emosiynol yn darparu grwpiau therapiwtig a chefnogaeth un i un ar gyfer CYP sy'n gysylltiedig â lles emosiynol; ac mae Umbrella Cymru yn darparu ystod o wasanaethau i bobl ifanc LGBT+ mewn ffordd sy'n hyblyg o ran amser, hyd a'r dull a ddefnyddir. Nid yw'r gwasanaethau hyn yn canolbwyntio ar droseddau casineb, ond gallant gynnig rhai agweddau ar gefnogaeth i ddioddefwyr ifanc.

Pwysleisiodd yr ymarferwyr gryfder y gwasanaethau hyn trwy gael dull cyfannol gan eu bod yn cynnig gwasanaethau i blant nad ydynt yn canolbwyntio ar fater penodol ac felly'n apelio at y rhai nad ydynt hyd yn oed yn cydnabod eu bod yn dioddef troseddau casineb. Efallai y bydd materion eraill hefyd yn effeithio ar fywydau'r CYP hyn:

*"Sut fyddech chi'n gwybod ble i chwilio am a ble i fynd pan nad ydych chi'n gwybod beth chi'n edrych amdano? Sut fyddai plentyn neu ddioddefwr ifanc yn meddwl 'o dwi wedi bod yn ddioddefwr neu wedi cael fy effeithio gan droseddau casineb, a nawr byddaf yn chwilio yn Google am droseddau casineb neu'n mynd i'm gwasanaeth BME neu LGBT lleol' oherwydd nid ydyn nhw'n gyfarwydd â'r iaith honno. Byddan nhw'n gwneud pethau fel mynd ar Google a chwilio am 'bwlio', 'help', 'rwy'n drist'."*

*"Mae'r hyn maen nhw ei angen gennym ni'n llawer ehangach na'r elfen gasineb. Maen nhw'n dod i mewn i ddechrau oherwydd eu bod nhw wedi profi rhywbeth. Maen nhw angen sicrwydd, maen nhw angen cefnogaeth, efallai y byddan nhw angen rhywfaint o help ymarferol i gael eu hysgol i ddeall beth sy'n digwydd iddyn nhw ar hyn o bryd. Mae angen y gwaith eirioli sy'n cyd-fynd â hynny, o bosibl maen nhw angen rhywfaint o waith adeiladu hyder neu waith am bryder, ac yn aml adeiladu gwytnwch."*

Mae'r categori olaf o wasanaethau yn cynnwys yr unig dri gwasanaeth sy'n wasanaethau penodol i droseddau casineb: Mae Canolfan Riportio a Chymorth Troseddau Casineb Cenedlaethol Cymorth i Ddioddefwyr Cymru yn darparu ystod o gefnogaeth (emosiynol, cyngor, gwybodaeth, eiriolaeth a chefnogaeth ymarferol) i rieni neu ofalwyr â phlant sydd wedi cael eu heffeithio gan droseddau

a digwyddiadau casineb; mae swyddog gwaith achos gwahaniaethu a throsedd casineb Race Equality First yn darparu cefnogaeth, cyngor, eiriolaeth a chymorth i ddioddefwyr troseddau casineb wrth riportio'r drosedd; ac mae'r Uned Ymateb Islamoffobia, sy'n llwyfan i ddioddefwyr riportio a rhannu eu profiadau, yn cynnig cymorth cyfreithiol, cyngor a gwasanaethau atgyfeirio ymlaen i ddioddefwyr.

Mae dau o'r gwasanaethau – Cymorth i Ddioddefwyr a Race Equality First – yn cynnig cefnogaeth i'r holl nodweddion gwarchodedig, er bod Race Equality First yn cefnogi dioddefwyr sydd â nodweddion gwarchodedig hil, lliw a tharddiad ethnig yn bennaf. Mae'r Uned Ymateb Islamoffobia yn canolbwyntio ar hil, lliw a tharddiad ethnig. Nid yw'r tri gwasanaeth ar gyfer CYP yn unig, er bod gweithiwr achos Race Equality First yn cefnogi CYP ac yn gallu darparu cefnogaeth ddiwylliannol sensitif. Amlygodd yr ymarferwyr hefyd y gall cefnogi'r rhieni i gefnogi eu plant liniaru effaith niweidiol dioddefwyr iau troseddau casineb yn bennaf:

*"Pan fydd y plentyn yn iau gall [cefnogaeth i rieni] helpu i roi'r gefnogaeth ychwanegol hon i'r rhiant ei hun oherwydd gall cefnogi eu plentyn fod yn faich enfawr ac yn bryder mawr iddynt. Felly gall cael rhywun i siarad ag ef, nad yw'n bartner, fod yn ddefnyddiol iawn. Ac os ydyn nhw'n teimlo'n gryfach yna maen nhw'n gallu cefnogi eu plentyn yn well."*

## Bylchau mewn gwasanaethau: Diffyg cefnogaeth wyneb yn wyneb uniongyrchol i CYP sydd wedi cael eu heffeithio gan droseddau casineb



Mae'r dosbarthiad hwn o wasanaethau presennol yn dangos y bwlch yn y ddarpariaeth gwasanaeth gan nad oes cefnogaeth emosiynol wyneb yn wyneb uniongyrchol i'r holl CYP sydd wedi cael eu heffeithio gan droseddau casineb yng Nghymru. Pwysleisiwyd y bwlch hwn hefyd gan y mwyafrif o'r ymarferwyr a gafodd eu cyfweld.

Clywsom gan yr ymarferwyr pan fydd angen cefnogaeth bellach ar gyfer dioddefwyr troseddau casineb, eu bod yn bennaf yn ceisio eu cyfeirio at wasanaeth mwy penodol pan fyddan nhw ar gael: er enghraifft, gwasanaethau penodol i droseddau casineb fel Cymorth i Ddioddefwyr, gwasanaethau sy'n benodol i CYP fel Meic neu Childline, neu wasanaethau iechyd meddwl (fel y GIG):

*"Felly byddwn yn helpu gyda'r mater troseddau casineb o ran y broses, p'un a yw'n golygu mynd drwy'r broses honno, cyfiawnder troseddol neu ysgrifennu at y cyngor neu'r ysgol, ond efallai y byddwn yn cyfeirio neu'n ceisio dod o hyd i gefnogaeth ychwanegol i'r person ifanc hwnnw o rywle arall. Gallai gynnwys cwnsela neu gallai fod yn gefnogaeth ehangach i'w teulu."*

*"Pan fydd angen i ni gyfeirio, rydym yn cyfeirio at yr heddlu yn bennaf i riportio digwyddiad, ac rydym yn gweithio'n eithaf agos gyda'r swyddog cyswllt cydlyniant cymunedol lleol. Mae hi wedi bod yn dda iawn. Ac yna mae yna adnoddau fel Childline a Chefnogaeth i Ddioddefwyr ar gyfer ôl-ofal. Mae yna wasanaethau cwnsela a lles, ond gall fod yn anodd eu cyrchu yn enwedig i blant ag anghenion ychwanegol."*

Fodd bynnag, yn y ddarpariaeth gyfredol mae'r gefnogaeth hon yn gyfyngedig iawn:

*"Nid oes lle i gyfeirio ato am gefnogaeth emosiynol. Os oes angen mwy na rhywun i sgwrsio â nhw a thipyn o gefnogaeth emosiynol gyffredinol ar bobl ifanc, nid oes unrhyw le i gyfeirio ato mewn gwirionedd. Ac mae hynny mor rhwystredig. Rydyn ni'n gwrando ar bobl ac yn gallu bod yn gefnogol am rywbeth, ond nid yw [cefnogaeth emosiynol] yn wasanaeth rydyn ni'n ei ddarparu. Byddwn yn ceisio dod o hyd i rywun sy'n wirioneddol addas a all ddiwallu anghenion y person ifanc hwn neu'r teulu hwnnw, cefnogaeth fwy arbenigol."*

*"Os yw ef [dioddefwyr troseddau casineb] yn mynd at yr heddlu mae'n ddigon posib y bydd ganddyn nhw bethau y gellir eu rhoi ar waith, yn enwedig os oedden nhw wedi dioddef trosedd gorfforol neu rywiol a bod y drosedd casineb yn ychwanegiad at hynny. Pe bai'n [drosedd] yn yr ysgol gallwn fynd i'r ysgol neu at wasanaeth cwnsela'r ysgol, [i ofyn] beth allwch chi ei roi ar waith naill ai ar gyfer yr unigolyn neu'n ehangach. Os oedd yn rhywbeth a ddigwyddodd ar y stryd bydd yn ymwneud â riportio, os ydyn nhw am riportio, i'r heddlu... Ond mae'r opsiynau'n gyfyngedig iawn, nid oes gennym wasanaeth y gallwn ei ddweud – mae yna wasanaeth hyfryd iawn i bobl ifanc y gallwch chi eu ffonio neu gallant ddod i'ch cyfarfod yn unrhyw le rydych chi ei eisiau a gallant eich helpu chi oherwydd rydych chi'n dweud eich bod chi'n cael y pyliau o banig hyn ers i hyn ddigwydd i chi, ac nid ydych chi wedi bod yn yr ysgol... Gallwn estyn allan i'n rhwydwaith a cheisio dod o hyd i rywbeth penodol yn lleol os yn bosibl. Oherwydd ein bod yn gweithio ledled Cymru, mae bob amser yn mynd i fod yn wahanol ym mhob ardal. Nid oes unrhyw fath o system gyffredinol i fynd drwyddi."*

*"Fe wnaethon ni ddarganfod pan rydyn ni wedi gweithio gyda phobl ifanc sydd wedi dioddef troseddau casineb, ac efallai nad ydyn nhw wedi rhoi gwybod amdano neu eu bod wedi ei riportio ond nad oes unrhyw beth wedi ei wneud, nid yw'n mynd ymhellach, yna dyna ni. Nid oes cefnogaeth barhaus bryd hynny ac nid ydynt yn gwybod ble i fynd am gefnogaeth. Neu hyd yn oed pan fo digwyddiadau wedi cael eu riportio a'u hymchwilio gan yr heddlu ychydig bach o gefnogaeth sydd i fynd drwy'r broses gyfweld ac ymchwilio, ond yna does dim cefnogaeth i adeiladu eu hyder i fynd yn ôl i'r gymuned eto. Maen*

*nhw'n cael eu gadael. Gwelsom fod hwn yn fwlch go iawn... Oherwydd bod llawer o'r plant rydyn ni'n gweithio gyda nhw a'r teuluoedd rydyn ni'n gweithio gyda nhw mor unig, a phan mae pethau'n digwydd mae'n atgyfnerthu'r syniad hwnnw o 'rydyn ni ar ein pennau ein hunain, rydyn ni yn erbyn y byd' math o beth. Hyd yn oed, i rai o'n pobl ifanc, cefnogaeth i ddal y bws eto, mynd i'r parc neu fynd i'r ganolfan hamdden, ac y bydd y gefnogaeth ddwys ymarferol yn dda iawn yn hytrach na dod i grŵp a byddwn yn gwneud rhywfaint o stwff am les."*

*"Os oes angen cefnogaeth uniongyrchol ar y plentyn, nid oes gennym unrhyw le. Mae pob gwasanaeth yn fwy o wasanaethau cyfeirio yn hytrach na gwasanaethau cymorth emosiynol, nid oes gennym unrhyw le i gyfeirio ato. Mae un gwasanaeth yng Ngwent – Umbrella Cymru ar gyfer ardal Gwent sydd ar gyfer plant a phobl ifanc LGBT, ond nid oes cysondeb ledled Cymru."*

*"Nid oes gwasanaeth penodol i bobl ifanc ar fater troseddau casineb yn benodol... Mae angen sicrhau bod gwasanaeth o'r fath ar gael i bobl ifanc oherwydd ei fod yn broblem ac rydym yn cydnabod bod troseddau casineb yn rhywbeth sy'n cael effaith enfawr ar fywyd pobl, gwahaniaethu hefyd. Yn benodol troseddau casineb, rwy'n teimlo bod pobl yn aml yn cael eu gadael yn agored i niwed yn dilyn digwyddiad."*

*"Rwy'n credu bod angen mwy o gefnogaeth i blant a phobl ifanc ar deimlo'n ddiogel yn yr ysgol, yr hyn y gallant ei wneud, nid yn unig yn yr ysgol, ond teimlo'n fwy diogel yn gyffredinol. A hefyd cefnogaeth yn ymwneud â'u hunaniaeth. Yn yr oedran hwnna pan fydd eich hunaniaeth yn cael ei thargedu dyna pryd rydych chi'n fwyaf tebygol o fod â theimladau o hunan-werth isel, cwestiynu eich hunaniaeth a chwestiynu pwy ydych chi. Rwy'n credu ei bod yn amser sensitif iawn pan allai eu hunan-barch gael ei niweidio, felly mae angen mwy o gefnogaeth emosiynol."*

Dim ond trwy eu rhieni y mae Cymorth i Ddioddefwyr yn cynnig cefnogaeth i CYP, a gallai hyn fod yn llai priodol pan fydd y dioddefwyr yn hŷn neu pan nad ydyn nhw am ddatgelu'r sefyllfa yn llawn i'w rhieni neu ofalwyr, fel LGBT+ ifanc:

*"Rydyn ni'n gweld bod bylchau posib lle maen nhw [dioddefwyr] yn oedolion ifanc tua 15, 16, 17 ac nad ydyn nhw eisiau cael cefnogaeth trwy eu rhieni. Mae'r rhagdybiaeth eu bod yn dod ymlaen yn dda iawn gyda'u rhieni, eu bod yn agos at eu rhieni, weithiau mae'n rhagdybiaeth anghywir i'w gwneud. Ar gyfer troseddau casineb LGBT, rhagdybir eu bod mewn gwirionedd wedi dod allan i'w rhieni hefyd. Neu nid ydyn nhw eisiau rhoi baich ar eu rhieni na'u poeni gyda'r hyn sy'n digwydd iddyn nhw. Dyma'r math o bethau maen nhw'n cael eu gorfodi i'w gwneud pan fydd y gefnogaeth yn cael ei darparu trwy'r rhieni. Felly dyna lle rwy'n teimlo nad ydym yn lliniaru'r niwed. Oherwydd nad yw pobl eisiau cael y gefnogaeth honno gyda'u rhieni yn bresennol... Bydd yn ddefnyddiol iawn cael rhywun i gyfeirio ato ar gyfer y gefnogaeth wyneb yn wyneb uniongyrchol honno, hyd yn oed os oedd i bobl ifanc 13 [blynedd] a hŷn. Rwy'n credu mai dyna lle mae'r mater go iawn yn ymwneud â'r gefnogaeth trwy'r rhieni. Mae rhai pobl sy'n 17 mlwydd oed, nid ydyn nhw'n byw gyda'u rhieni neu dydyn nhw ddim yn dod ymlaen gyda'u rhieni ac mae'r gwasanaeth sy'n gofyn am gael siarad â'u rhieni yn chwerthinllyd mewn gwirionedd. Ac yna at bwy maen nhw'n mynd [i] am gefnogaeth? Nid oes gan y garfan hon o bobl ifanc wasanaeth, oherwydd ni allant ei gyrchu heb gydsyniad eu rhieni neu eu gofalwyr. Rwy'n dymuno y byddai mwy y gallwn ei wneud neu i gyfeirio ato."*



Mewn llawer o achosion efallai na fydd rhieni'n gwbl ymwybodol o'r erledigaeth neu efallai nad ydyn nhw'n cael y darlun llawn, yn enwedig pan fydd y gamdriniaeth yn digwydd ar-lein:

*"Nid yw digwyddiadau sy'n digwydd yn yr ysgol yn gorffen yn yr ysgol a gall fod ar y ffordd adref o'r ysgol, ond gall hefyd fod pan fyddwch gartref, yn eich lle diogel, yn eich ystafell wely. Ac yna eto, gall hynny hefyd arwain at rieni ddim yn gwybod bod hyn yn digwydd. Efallai y bydd CYP yn mynd i'w cragen ac nid yw rhieni wir yn deall pam ac nid ydynt yn ymwybodol o'r cam-drin ar-lein. Felly pan allwn ni siarad â rhieni neu ofalwyr yn unig efallai nad ydyn nhw'n gwybod beth yw'r stori gyfan."*

Yn y ddarpariaeth bresennol, dim ond Umbrella Cymru a Race Equality First sy'n cynnig gwasanaeth sy'n darparu cefnogaeth wyneb yn wyneb i CYP, gan gynnwys ynghylch materion troseddau casineb. Fodd bynnag, mae Umbrella Cymru yn darparu ar gyfer LGBT+ ifanc yn unig ac mae'r ddau wasanaeth yn gweithredu yn Ne-ddwyrain Cymru yn bennaf.

Roedd yr ymarferwyr yn rhanedig ynghylch a ellir cyflawni'r bwlch hwn gan wasanaeth sy'n benodol i droseddau casineb ar gyfer yr holl CYP a allai gynnig cymorth medrus yn ymwneud â throseddau casineb, neu a ddylai gwasanaethau arbenigol fod ar gael i grwpiau o wahanol nodweddion gwarchodedig. Ar y naill law, budd gwasanaeth sy'n benodol i droseddau casineb yw bod dioddefwyr troseddau casineb ag anghenion cyffredin waeth beth fo'u nodweddion gwarchodedig ac efallai bod ganddyn nhw fwy nag un nodwedd warchodedig. Ar y llaw arall, pwysleisiodd y rhai oedd yn cefnogi gwasanaethau arbenigol ar gyfer grwpiau o wahanol nodweddion gwarchodedig mai dim ond mater arall yn eu bywydau yw'r trosedd casineb y mae angen mynd i'r afael ag ef:

*"Nid yw pob trosedd casineb yn ymwneud â pherthyn i un grŵp. Nid un peth yn unig yw pobl, gallwch chi fod yn ferch, yn blentyn, yn rhywun ag anabledd, yn sdrêt, yn LGBT, yn Draws, yn Sipsiwn neu'n Deithiwr."*

*"Yr hyn rydyn ni'n tueddu i'w ddarganfod yw bod pobl ifanc, er [maen nhw] yn gallu cydnabod bod casineb wedi digwydd a'u bod yn gryf iawn na ddylai fod wedi digwydd, mae materion y rhai sy'n ei brofi yn llawer ehangach na'r digwyddiad unwaith ac am byth hwnnw. Mae yna faterion yn ymwneud â gwydnwch, mae yna ymdeimlad o faterion hunaniaeth a materion teuluol, materion yn ymwneud â dod allan, rhwystrau digartrefedd, ofnau ac amddiffyniadau, materion cam-drin cyffuriau ac alcohol a phob math o bethau eraill sy'n cyd-fynd â synnwyr y person ifanc o iechyd a lles meddyliol."*

Y naill ffordd neu'r llall, mae gan wasanaeth (neu wasanaethau) sy'n canolbwyntio ar CYP sydd wedi cael eu heffeithio gan droseddau casineb (naill ai ar gyfer yr holl CYP neu yn ôl nodweddion amddiffynnol penodol) y potensial i gynyddu a chynorthwyo i riportio troseddau casineb a digwyddiadau, y credir eu bod ar hyn o bryd yn cael eu tan-adrodd.

Er mwyn pontio'r bwlch hwn yn y ddarpariaeth gyfredol o wasanaethau, rydym yn argymell y dylid ymgynghori â CYP ynghylch eu hanghenion a'r gefnogaeth a ddymunir a bod â rôl wrth lunio unrhyw wasanaethau a allai gael eu rhoi ar waith.


# 2. Cwmpas daearyddol

## Darpariaeth gyfredol

Cyflwynir yr ardaloedd a gwmpesir gan yr 20 gwasanaeth a nodwyd ar y map isod. Mae tri ar ddeg gwasanaeth ledled y wlad ac mae saith gwasanaeth yn gweithredu yn Ne-ddwyrain Cymru yn unig. Ceir gwybodaeth fwy manwl ar yr ardaloedd yn y tabl ar dudalennau 8–19.

### Gwasanaethau

- **1** Canolfan Riportio a Chymorth Troseddau Casineb (VS)
- **2** Uned Ymateb Islamoffobia (IRU)
- **3a** Race Equality First (Gweithiwr achos troseddau casineb
- **3b** Race Equality First (Gwaith ysgol, gwybodaeth ac eiriolaeth)
- **4** Travelling Ahead
- **5** Travelling Ahead: Cefnogaeth Cynllun Setliad yr UE (EUSS)
- **6** Cydlynydd Cydlyniant Cymunedol y Cyngor
- **7** SNAP Cymru
- **8** Mermaids
- **9** Academi Cyfryngau Caerdydd (MAC)
- **10** Canolfan gymunedol galw heibio – Cymdeithas Tsieineaidd yng Nghymru
- **11** EYST Cymru
- **12** Stonewall Cymru
- **13** Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgol Cymru i gyd (AWSLCP) SchoolBeat
- **14** Dangos Cerdyn Coch i Hiliaeth Cymru
- **15** Barnardo's Blaenau Gwent Aware
- **16** Prosiect SELMA (Dysgu Cymdeithasol ac Emosiynol ar gyfer Ymwybyddiaeth Gydfuddiannol)
- **17** Meic
- **18** Gwasanaeth Lles Emosiynol
- **19** Umbrella Cymru
- **20** Childline




*Mae'r sefydliadau hyn yn cynnig gwasanaethau cenedlaethol ond darperir eu gwasanaethau yn Ne-ddwyrain Cymru yn bennaf

## Bylchau mewn gwasanaethau: Mae gwasanaethau a chefnogaeth gyfyngedig yn bodoli yng Ngogledd Cymru ac ardaloedd gwledig

O'r 20 gwasanaeth a nodwyd, mae gan 13 o'r gwasanaeth gwmpas cenedlaethol ac yn cynnig gwasanaethau ledled Cymru. Fodd bynnag, mae tri o'r gwasanaethau hyn, er eu bod yn wasanaethau cenedlaethol, mewn gwirionedd yn canolbwyntio ar ardaloedd llai. Mae Dangos Cerdyn Coch i Hiliaeth Cymru yn cynnig ei weithgareddau yn yr ysgol i bob ysgol yng Nghymru, ond mae'n cael ei gomisiynu yn bennaf gan gynghorau ac ysgolion yn Ne Cymru. Mae Umbrella Cymru yn cynnig ei wasanaethau cymorth ledled Cymru, ond mae'r ffaith bod y sefydliad wedi'i leoli yn Ne-ddwyrain Cymru yn cael ei adlewyrchu yn y gyfran uwch o ddefnyddwyr gwasanaeth o Dde Cymru a'r ystod fwy cyfyngedig o wasanaethau sydd ar gael yng Ngogledd Cymru (lle, er enghraifft, efallai na fydd cefnogaeth wyneb yn wyneb ar gael). Mae gan Race Equality First wasanaethau cenedlaethol mewn ysgolion ac yn y gymuned, ond dim ond yng Nghaerdydd, Abertawe, Casnewydd a Bro Morgannwg mae ei swyddog gwaith achos gwahaniaethu a throsedd casineb yn gweithredu.

Mae saith gwasanaeth arall yn gweithredu yn Ne-ddwyrain Cymru yn unig, yn bennaf o amgylch y dinasoedd mwyaf: Caerdydd, Abertawe a Chasnewydd. Er bod hyn yn adlewyrchu crynodiad y boblogaeth yng Nghymru a'r ardaloedd sydd â'r boblogaeth fwyaf nad ydyn nhw'n wyn , mae'n nodi'r gefnogaeth gyfyngedig sydd ar gael i CYP sydd wedi cael eu heffeithio gan droseddau casineb mewn rhannau eraill o'r wlad ac mewn ardaloedd mwy gwledig.

At hynny, nid oes unrhyw ddata ar nifer y digwyddiadau troseddau casineb sy'n cynnwys dioddefwyr CYP, wedi'u dadansoddi yn ôl ardaloedd heddlu yng Nghymru, ar gael am ddim. Serch hynny, mae data o'r boblogaeth oedolion yn dangos, er bod y ganran uchaf o ddigwyddiadau troseddau casineb wedi'u cofnodi yn Ne Cymru yn 2018/19 (1,906 o ddigwyddiadau – 48% o'r holl ddigwyddiadau troseddau casineb a gofnodwyd yng Nghymru), cafodd nifer sylweddol o ddigwyddiadau eu riportio i'r heddlu yng Ngogledd Cymru yn 2018/19 (940 o ddigwyddiadau – 24% o'r holl ddigwyddiadau troseddau casineb a gofnodwyd yng Nghymru).[12] Mae'r data hyn yn dangos presenoldeb troseddau casineb ym mhob rhan o Gymru ac yn pwysleisio'r angen am gefnogaeth ledled y wlad.

Cydnabuwyd y bwlch hwn hefyd gan yr ymarferwyr:

*"Mae yna broblem yn gyffredinol o ran darpariaeth wyneb yn wyneb mewn rhannau gwledig o Gymru naill ai oherwydd nad oes unrhyw beth ar gael neu fod y cysylltiadau trafnidiaeth mor wael neu mor gostus nes ei bod yn ei gwneud yn anodd iawn ei gyrchu."*

*"[Mae] gan yr ardaloedd trefol fwy o wasanaethau. Gorllewin Cymru, yn enwedig Sir Benfro, Ceredigion, y rhai gwledig iawn, llawer llai ac anoddach eu cyrraedd. Yng Ngogledd Cymru mae'r gwasanaethau ieuenctid yn dal i fod yn gymharol weithgar yno a'r siopau gwybodaeth ieuenctid. Efallai y bydd llawer o fechgyn yn mynd yno am gondomau ac yna byddan nhw'n siarad am bethau eraill hefyd."*

Amlygodd yr ymarferwyr hefyd nad yw'r gefnogaeth sydd ar gael mewn ardaloedd gwledig bob amser yn addas ar gyfer CYP â nodweddion gwarchodedig:

*"O ran ardaloedd gwledig, mae yna lawer o gefnogaeth ond maen nhw o fath arbennig fel clybiau ffermwyr ifanc neu'r Mudiad yr Iaith Gymraeg, ond fe fyddan nhw'n apelio at fath penodol o bobl ifanc ac nid efallai'r bobl ifanc sydd wedi'u hynysu, yn agored i niwed ac sy'n cael eu targedu am amryw resymau. Efallai nad ydyn nhw'n teimlo bod y gwasanaethau hynny'n siarad â nhw neu'n hygyrch iddyn nhw."*

Yn ogystal, mae tri o'r gwasanaethau ledled y wlad – Mermaids, Meic a Childline – yn llinellau cymorth sy'n cynnig cefnogaeth i CYP trwy ddulliau ar-lein neu dros y ffôn, sy'n ychwanegu at argaeledd cyfyngedig gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig. Gall signal symudol a'r rhyngrwyd fod yn gyfyngedig mewn rhai ardaloedd, a bydd hyn yn effeithio ar allu'r CYP i gyrchu a defnyddio'r llinellau cymorth hyn:

*"Mewn ardaloedd gwledig yn aml mae mater yn ymwneud â signal, sy'n effeithio ar Wi-Fi, ffonau symudol a'r gweddill ohono. Mae rhai rhannau yn ynysig iawn."*

# 3. Delio â throseddau a digwyddiadau casineb mewn ysgolion

Roedd y ffordd mae ysgolion yng Nghymru yn delio â throseddau a digwyddiadau casineb y tu allan i gwmpas cam cyfredol yr ymchwil hon, ac felly ni chyfwelwyd ymarferwyr addysg. Serch hynny, cafodd y ffordd mae ysgolion yn mynd i'r afael â throseddau a digwyddiadau casineb ei godi fel problem gan nifer sylweddol o'r ymarferwyr a gafodd eu cyfweld ar gyfer yr adroddiad hwn. Felly, er mwyn codi ymwybyddiaeth am y mater hwn ac annog archwiliad pellach, rydym wedi cynnwys barn yr ymarferwyr ar y mater hwn yn yr adroddiad hwn. Serch hynny, mae angen ymchwil ychwanegol gyda staff ysgolion, ymarferwyr addysg a CYP i greu darlun llawnach a gwneud argymhellion.

Dywedodd yr ymarferwyr wrthym fod gwahanol ysgolion yn eu profiad yn cynnig gwahanol lefelau o gefnogaeth o ran troseddau a digwyddiadau casineb sy'n digwydd yn yr ysgol. Roedden nhw hefyd yn teimlo y gallai ysgolion wneud yn well wrth nodi a chofnodi troseddau a digwyddiadau casineb:

*"Ar gyfer plentyn sy'n ddioddefwr rydym yn ei drafod [trosedd casineb] gyda'r plentyn wedi hynny a'r pennaeth, bydd cyfathrebu dilynol gyda'r ysgol, a gobeithio y byddai'r ysgol yn cymryd hynny ac yn dilyn eu gweithdrefnau, a byddwn yn dilyn i fyny eto i weld beth sy'n digwydd gyda'r ysgol, beth sydd wedi'i wneud a'r hyn y gallwn ei gynnig o ran gwaith*



*addysgol a gweithdai dilynol, ond un rhan yn unig o'r jig-so yw hynny. Weithiau rydyn ni'n dod ar draws athrawon nad ydyn nhw eisiau mynd â phethau ymhellach, neu nad ydyn nhw eisiau cyfathrebu â'r cyngor."*

*"Mae gan wahanol ysgolion wahanol lefelau o gefnogaeth. Mae rhai profiadau yn dda. Mae llawer o bobl nad ydynt yn cael yr ymateb cywir ar droseddau casineb mewn ysgolion, mae angen mwy o waith ar hynny. Y system yw bod ysgolion yn cael adborth [arnyn nhw] o ran eu llwyddiant ac felly maen nhw'n wyliadwrus weithiau i siarad am y negyddol, mae'n rhaid i chi gael system lle gellir delio â hynny mewn dull mwy priodol yn hytrach na dim ond dweud 'peidiwch â riportio hynny'... Dylid ei gydnabod fel trosedd mewn ysgolion yn gyffredinol. Dylai fod yn achos o sut y gallwn fynd i'r afael ag ef."*

At hynny, amlygodd yr ymarferwyr yr angen am ddealltwriaeth gliriach o'r gwahaniaethau rhwng troseddau casineb a bwlio o safbwyntiau cyfreithiol, polisi ac ymarferol. Yn unol â hynny, fe wnaethant bwysleisio hefyd yr angen am ymateb cyfatebol priodol ar y lefel polisi yn ogystal ag ar lefel ymarferwyr addysg ar gyfer pob un o'r gwahanol faterion:

*"Mae risg y bydd troseddau casineb yn cael eu bychanu i fwlio ac na fyddant yn cael eu cydnabod fel troseddau casineb ac mae hwnnw'n ddarn o waith rwy'n credu y dylid ei wneud gydag awdurdodau, fel ysgolion a chyrff llywodraethu, i sicrhau eu bod yn gwybod beth yw troseddau casineb a'i fod yn cael ei fonitro'n ddigonol mewn ysgolion. Rydyn ni'n gweld o'n profiad ddiffyg cydnabyddiaeth gan benaethiaid ac athrawon ddim yn gwybod pryd mae'r llinell yn cael ei chroesi a sut rydych chi'n nodi rhywbeth fel trosedd casineb yn hytrach na bwlio, mae bwlio'n ddifrifol hefyd, ond weithiau nid yw digwyddiadau o droseddau casineb yn cael eu riportio neu eu cydnabod. Mae yna ddiffiniad yn y gyfraith o droseddau casineb, ac nid oes ots ble mae'n digwydd, hyd yn oed pe bai'n digwydd mewn ysgolion, dylid ei gofnodi fel trosedd casineb."*

*"Mae ysgolion mewn gwirionedd ar y cyfan yn weddol brin o ran y gallu i nodi, gweithredu, cefnogi a delio â bwlio ar sail hunaniaeth nad yw'n cael ei nodi'n briodol fel troseddau casineb, ac yn aml nid fel bwlio ar sail hunaniaeth chwaith. Mae yna fwlch enfawr yno. Mae'n ddyletswydd ar ysgolion yng Nghymru, dyletswydd ychwanegol i'r rhai yn Lloegr, i gyhoeddi cynllun cydraddoldeb bob blwyddyn ac mae dyletswydd arnyn nhw hefyd yn y canllaw statudol newydd sydd ar droed i'w cyfarwyddo ar beth i'w wneud i fynd i'r afael â bwlio, ond nid oed gan y rhan fwyaf o athrawon hyfforddiant na dealltwriaeth."*

*"Rwy'n credu nad yw llawer o'r bwlio a'r digwyddiadau sy'n digwydd mewn ysgolion yn cael eu riportio i'r heddlu, er [bod] canllawiau awdurdodau lleol i wneud hynny. Rwy'n credu bod ysgolion yn ceisio ei wthio o dan y carped neu'n ceisio delio ag ef eu hunain. Efallai nad troseddau mohonynt, efallai mai ddigwyddiadau yw'r rhain lle mae plant yn cael eu herlid oherwydd eu nodweddion gwarchodedig, ond nid yw'n cael ei riportio i'r heddlu ac felly ni fyddant yn cael eu cyfeirio at gefnogaeth... Nid yw'r llinell p'un a yw hynny'n drosedd a digwyddiad casineb a phryd mae'n achos o fwlio a'r hyn y dylai'r ysgol fod yn ei wneud yn glir iawn... Bwlch mewn gwasanaeth neu hyfforddiant y mae angen ei lenwi â'r ysgol a'r heddlu ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fydd rhywun yn dioddef bwlio oherwydd eu nodweddion gwarchodedig."*

Os nad yw achosion yn cael eu cofnodi'n gywir fel troseddau a digwyddiadau casineb, nid yw maint y broblem mewn ysgol benodol ac ym mhob ysgol yn gyffredinol yn gwbl hysbys i staff yr ysgol a llunwyr polisi. O ganlyniad, efallai na fydd atebion a chefnogaeth ddigonol yn cael eu ceisio a'u cynnig ar lefel ysgol nac ar lefel genedlaethol.



# Effaith troseddau a digwyddiadau casineb ar CYP

Gan ddioddefwyr sy'n oedolion, rydym yn gwybod y gall troseddau casineb gael effaith sylweddol ar y dioddefwr oherwydd iddynt fod yn destun ymosodiad am elfen ganolog o'u hunaniaeth. Mae troseddau casineb hefyd yn cael effaith anghymesur ar ddioddefwyr; gall dioddefwyr deimlo mwy o drawmateiddio yn dilyn troseddau casineb nag yn dilyn droseddau cyfatebol heb unrhyw gymhelliant o'r fath.[13]


Gofynnwyd i'r ymarferwyr a gymerodd ran yn yr arolwg ar-lein a'r cyfweliadau hefyd am effaith a welwyd yn dilyn troseddau a digwyddiadau ar CYP yn seiliedig ar eu profiad. Dylid nodi bod cwmpas y cam hwn o'r ymchwil ond yn caniatáu i nifer gyfyngedig o ymarferwyr gymryd rhan. Fodd bynnag, gan eu bod yn arbenigwyr yn y maes, gall eu profiad helpu i ddarparu mewnwelediad pwysig y gall ymchwil bellach ei ddefnyddio.

Rhannodd yr ymarferwyr sut mae effaith troseddau casineb ar CYP yn helaeth ac yn cwmpasu sawl agwedd ar fywydau'r CYP:

*"Os ydych chi'n destun ymosodiad oherwydd pwy ydych chi fel person, mae'n debyg mai dyna'r peth mwyaf dinistriol a all ddigwydd. Ble ydych chi'n ddiogel ar ôl hynny?"*

*"Fe all niweidio eu hyder, yr ymdeimlad o bwy ydyn nhw, a'u hyder yn yr ysgol. Effeithio ar sut maen nhw'n adeiladu perthnasoedd cymdeithasol. Gall rhai fynd i'w cragen oddi wrth eu rhieni. Rydym yn clywed gan rieni 'dydyn nhw ddim yn siarad â ni mwyach, dydyn nhw ddim yn dod allan o'u hystafell'. Pan fyddan nhw'n ifanc maen nhw'n cael problemau gwlychu'r*

## Barn ymarferwyr ar effaith troseddau a digwyddiadau casineb ar wahanol agweddau ym mywyd CYP




Ffigwr 4

*gwely [mewn] oed pan na ddylent wlychu eu gwely a chael hunllefau. Mewn cyfnod yn eich bywyd pan na ddylech wir bryderu neu boeni am unrhyw beth ac yna mae dod yn bryderus a phoeni yn effeithio ar eu datblygiad."*

Gofynnwyd i'r ymarferwyr raddio effaith troseddau a digwyddiadau casineb ar wahanol agweddau ar fywydau'r CYP. Fel y dangosir yn siart 4 isod, nododd yr ymarferwyr les emosiynol a pherthnasoedd â chyfoedion fel y ddwy agwedd ar fywyd y CYP sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan droseddau a digwyddiadau casineb. Dywedodd bron pob un o'r ymarferwyr fod yr effaith ar yr agweddau hyn yn uchel iawn (78% a 72% o'r ymarferwyr, yn y drefn honno). Roedd diogelwch canfyddedig ac ymdeimlad o berthyn i'r gymuned hefyd yn cael eu cydnabod gan y mwyafrif o'r ymarferwyr fel agweddau ar fywydau'r CYP sy'n cael eu heffeithio'n sylweddol gan droseddau a digwyddiadau casineb (dywedodd 67% a 56% o'r ymarferwyr, yn y drefn honno, bod yr effaith ar yr agweddau hyn yn uchel iawn).

Clywsom gan yr ymarferwyr y gall yr effaith emosiynol ynghyd â'r effaith ar berthnasoedd â ffrindiau a diogelwch canfyddedig arwain at ynysu'r dioddefwr ifanc oddi wrth ei gyfoedion a'r gymuned o ganlyniad i droseddau a digwyddiadau casineb. Mae'n ymddangos bod hyn yn berthnasol i CYP o'r holl nodweddion gwarchodedig:

*"Mae [erledigaeth drwy droseddau casineb] yn atgyfnerthu arwahanrwydd yr hyn y mae llawer ohonyn nhw eisoes yn ei deimlo. Mae gennym blant nad ydyn nhw'n gadael y tŷ mwyach oherwydd eu bod nhw ofn am eu bywydau, ac maen nhw'n teimlo mor unig.*

*A llawer o'r amser maen nhw'n ei fewnoli, felly maen nhw'n meddwl mai eu bai nhw ydy o, maen nhw'n dweud 'pe bawn i'n normal ni fyddai hyn wedi digwydd, pe bawn i'n gallu gofyn cwestiynau yn y ffordd iawn yna ni fyddai wedi digwydd i mi'. Felly mae effaith enfawr ar hunan-barch a hyder... Mae gennym ni un dyn ifanc a gafodd brofiad o grŵp o blant yn ceisio ei roi ar dân ac erbyn hyn nid yw wedi gadael y tŷ ers 18 mis. Mae'n mynd i'r ysgol ac yn ôl a dyna ni. Mae'n cael cymaint o effaith ar bobl ifanc sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd cael mynediad i'r gymuned, ac yna pan maen nhw'n cael profiadau fel 'na, yna mae wir yn taro eu hyder."*

*"Yr effeithiau tymor hir ar iechyd a lles meddwl, yr effaith ar unigedd. Mae pobl LGBT+ yn fwy tebygol o deimlo'n ynysig ac yn unig yn y gymdeithas ac wrth edrych ar achosion o droseddau casineb, yn enwedig wrth ddigwydd yn ifanc. Bydd hynny'n effeithio ar fywyd y person ifanc wrth symud ymlaen o ran sut mae'n cysylltu â chymdeithas ac yn teimlo ymdeimlad o berthyn a chysylltiad â chymdeithas."*

Ar ben hynny, mae rhan sylweddol o fywydau cymdeithasol pobl ifanc yn digwydd ar-lein, felly pan fydd y cam-drin yn digwydd ar-lein gall rhoi'r gorau i gyfryngau cymdeithasol gynyddu unigedd y dioddefwr ac effeithio ar ei berthynas â ffrindiau:

*"Mae peth o'r cam-drin yn ddi-baid, ac rydych chi'n mynd adref a dydych chi ddim yn dianc oddi wrtho, dydyn nhw ddim yn diffodd eu ffôn, mae'n dal i fod yno... Mae'n frwydr i rieni sydd o genhedlaeth wahanol ac nad ydyn nhw'n deall sut mae'r cyfryngau cymdeithasol yn gweithio. Maen nhw'n dweud 'wel paid â chael cyfrif Facebook, paid â mynd ar Instagram', ond mae hynny'n rhan fawr o fywyd pobl ifanc nawr a pham y dylid gwahardd y dioddefwr o'r mannau hyn? Ni fyddech chi'n dweud hynny pe bai'n digwydd wrth gerdded i lawr y stryd, ni fyddem yn dweud wrth bobl 'rhaid i chi aros yn eich tŷ nawr'."*

Nododd yr ymarferwyr hefyd berfformiad ysgol a gweithgareddau beunyddiol y dioddefwyr ifanc fel rhai sy'n cael eu heffeithio gan droseddau a digwyddiadau casineb (mae 50% o'r ymarferwyr yn nodi bod yr effaith ar yr agweddau hyn yn uchel iawn):

*"Gallai'r trawma o fynd trwy ddigwyddiad o drosedd casineb, fel person ifanc yn benodol, gael effaith ar hyder yr unigolyn hwnnw yn ei allu i berfformio yn yr ysgol a risg i ddatgysylltiad posib o'r system."*

Mae'r holl effeithiau uchod yn nodi'r angen am gefnogaeth hyblyg eang a fydd yn gallu cwmpasu'r holl agweddau hyn: yn bennaf, y gefnogaeth emosiynol, perthnasoedd â ffrindiau a'r ymdeimlad o unigedd a pherthyn, a nodwyd fel yr agweddau ar fywydau'r CYP sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan droseddau a digwyddiadau casineb. Gellir gweld tystiolaeth bellach o effaith troseddau a digwyddiadau casineb ar CYP yn yr adolygiad llenyddiaeth yn yr Atodiad.

**Mae'r adroddiad hwn yn mapio'r ddarpariaeth gyfredol a'r gwasanaethau presennol ar gyfer CYP sydd wedi cael eu heffeithio gan droseddau a digwyddiadau casineb yng Nghymru. Mae hefyd yn nodi dau brif fwlch yn y ddarpariaeth gyfredol: 1) diffyg cefnogaeth wyneb yn wyneb uniongyrchol i CYP sydd wedi cael eu heffeithio gan droseddau casineb, a 2) gwasanaethau a chefnogaeth gyfyngedig yng Ngogledd Cymru ac ardaloedd gwledig. Mae hefyd yn cyflwyno mewnwelediadau cychwynnol i'r heriau o ddelio â throseddau a digwyddiadau casineb mewn ysgolion ac effaith troseddau casineb ar CYP.**

**Er mwyn deall ymhellach effaith troseddau a digwyddiadau casineb ar CYP, eu hanghenion ac arfer gorau am gefnogaeth, mae angen ymchwil ychwanegol yn anad dim gyda'r CYP eu hunain a gydag oedolion perthnasol eraill (rhieni, gofalwyr ac ymarferwyr addysg).**

# Cyfeiriadau

[1] https://www.cps.gov.uk/hate-crime

[2] https://www.sophielancasterfoundation.com/index.php/news/129-11-police-authoritiesnow-recording-alternative-subculture-hate-crime

[3] https://www.theguardian.com/society/2019/jan/14/campaigners-and-mps-call-for-misogynyto-be-made-a-hate

[4] College of Policing. (2014). *Hate crime operational guidance*. Coventry: College of Policing.

[5] https://www.nspcc.org.uk/what-we-do/news-opinion/race-hate-crimes-against-children-reach-3-year-high/

[6] https://www.theguardian.com/society/2018/jan/29/transgender-related-hate-crime-linked-toschools-rises

[7] Y Swyddfa Gartref. (2018). *Troseddau Casineb, Cymru a Lloegr, 2017/18: Bwletin Ystadegol 2018.* Llundain: Y Swyddfa Gartref.

[8] Smith, K., Lader, D., Hoare, J., & Lau, L. (2012). *Hate crime, cyber security and the experience of crime among children: Findings from the 2010/11 British Crime Survey: Supplementary Volume 3 to Crime in England and Wales 2010/11*. Llundain: Y Swyddfa Gartref.

[9] Oksanen, A., Hawdon, J., Holkeri, E., Nasi, M., & Räsänen, P. (2014). Exposure to online hate among young social media users. In M.N. Warehime (Ed.), Soul of society: *A focus on the lives of children & youth* (pp. 253–273). Bingley, UK: Emerald Group Publishing Limited.

[10] https://www.nspcc.org.uk/what-we-do/news-opinion/childline-discrimination-understand-me/

[11] https://statswales.gov.wales/Catalogue/Equality-and-Diversity/Ethnicity/ethnicity-by areaethnicgroup

[12] Y Swyddfa Gartref. (2019). *Troseddau casineb, Cymru a Lloegr, 2018/19*. Llundain: Y Swyddfa Gartref.

[13] Y Swyddfa Gartref, 2019 (fel n. 12).

# Atodiad: Adolygiad llenyddiaeth

Mae'r papur hwn yn crynhoi tystiolaeth a gwybodaeth o lenyddiaeth academaidd genedlaethol a rhyngwladol ar CYP sydd wedi cael eu heffeithio gan droseddau casineb. Mae hefyd yn adolygu llenyddiaeth lwyd[i], a gafwyd gan randdeiliaid allweddol, sefydliadau gwrth-fwlio a throseddau casineb yng Nghymru. Yn gyntaf, diffinnir troseddau casineb a digwyddiadau casineb; yna, mae nifer yr achosion o droseddau casineb yn erbyn CYP yn cael ei gyflwyno; nesaf, trafodir effaith troseddau casineb a digwyddiadau casineb ar CYP; ac, yn olaf, rhoddir tystiolaeth ar ymddygiad ceisio cymorth CYP a'u hanghenion am gefnogaeth.

Defnyddir sawl ymadrodd yn y llenyddiaeth i ddisgrifio troseddau casineb, digwyddiadau casineb a bwlio ar sail hunaniaeth, megis 'seiber gasineb', 'bwlio casineb', 'herio casineb', 'bwlio troseddau casineb' a 'bwlio homoffobig'. Yn gyffredinol, rydym yn defnyddio'r termau 'troseddau casineb', 'digwyddiadau casineb' a 'bwlio ar sail hunaniaeth' yn y papur hwn, ond pan fyddwn yn crybwyll ymchwil arall defnyddir termau'r papurau gwreiddiol.

## Diffiniadau

Mae **troseddau casineb** yn cael eu diffinio gan Wasanaeth Erlyn y Goron fel "Unrhyw drosedd y mae'r dioddefwr neu unrhyw berson arall yn eu hystyried fel troseddau sy'n cael eu cymell gan elyniaeth neu ragfarn, yn seiliedig ar hil neu hil ganfyddedig; **crefydd** neu grefydd ganfyddedig; **cyfeiriadedd rhywiol** neu gyfeiriadedd rhywiol canfyddedig; **anabledd** neu anabledd canfyddedig unigolyn ac unrhyw drosedd sydd wedi'i chymell gan elyniaeth neu ragfarn yn erbyn person sy'n **drawsryweddol** neu gael ei ystyried yn drawsryweddol".[1] Gelwir yr agweddau hyn ar hunaniaeth unigolyn yn nodweddion gwarchodedig. Mae rhai pobl hefyd yn cynnwys isddiwylliannau amgen fel nodwedd warchodedig[2] a chasineb at wragedd fel trosedd casineb.[3]

**Digwyddiad casineb** yw "Unrhyw ddigwyddiad **heblaw trosedd** sy'n cael ei ystyried, gan y dioddefwr neu unrhyw berson arall, i gael ei ysgogi gan elyniaeth neu ragfarn yn seiliedig ar hil unigolyn neu hil ganfyddedig; crefydd neu grefydd ganfyddedig; cyfeiriadedd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol canfyddedig; anabledd neu anabledd canfyddedig; ac unrhyw drosedd a ysgogir gan elyniaeth neu ragfarn yn erbyn person sy'n drawsryweddol neu'n cael ei ystyried yn drawsryweddol."[4]

Gall troseddau casineb a digwyddiadau fod ar sawl ffurf, megis ymosodiadau corfforol, cam-drin geiriol, sarhau neu aflonyddu, bygythiadau trais, galwadau ffug, negeseuon ffôn neu destun treisgar, niwed neu ddifrod i bethau, a cham-drin ar-lein ar gyfryngau cymdeithasol.[5]

Mae'r dystiolaeth am effaith troseddau a digwyddiadau casineb ar CYP yn gyfyngedig. Mewn cyferbyniad, mae effaith bwlio ar CYP wedi cael ei archwilio llawer mwy. Oherwydd y dystiolaeth gyfyngedig sydd ar gael ar droseddau a digwyddiadau casineb ac oherwydd eu bod yn rhannu rhai pethau tebyg, o ran natur a nodweddion, gyda bwlio ar sail hunaniaeth, rydym hefyd wedi cynnwys tystiolaeth sy'n edrych ar yr olaf yn yr adolygiad llenyddiaeth hwn lle bo hynny'n berthnasol.

Gellir diffinio **bwlio ar sail hunaniaeth** fel unrhyw fath o fwlio sy'n gysylltiedig â'r nodweddion sy'n cael eu hystyried yn unigryw i hunaniaeth plentyn neu hunaniaeth ganfyddedig, megis ei hil, crefydd,

i Mae llenyddiaeth lwyd yn cynnwys ystod o ddogfennau nad ydyn nhw'n cael eu rheoli gan sefydliadau cyhoeddi masnachol. Gall gynnwys adroddiadau, llenyddiaeth polisi, papurau gwaith, cylchlythyrau, dogfennau'r llywodraeth, cyflwyniadau a phapurau gwyn. Yn aml, cynhyrchir y wybodaeth hon gan sefydliadau'r llywodraeth a sefydliadau anllywodraethol.

anabledd, statws mewnfudo, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth rhyw ac ymddangosiad corfforol. Er bod y rhan fwyaf o fathau o fwlio wedi'u targedu at un unigolyn ar sail un o'u nodweddion personol, mae natur bwlio ar sail hunaniaeth yn golygu y gellir ei ystyried yn ymosodiad yn erbyn rhwydwaith cymdeithasol cyfan unigolyn. Oherwydd hyn, gall y gwahaniaeth rhwng bwlio ar sail hunaniaeth a throseddau casineb, yn enwedig digwyddiadau casineb, fod yn arbennig o amwys, gan ei gwneud hi'n anodd gwahaniaethu rhwng bwlio a throseddau a digwyddiadau casineb. Gall hyn achosi her o ran sut y gellir monitro a chofnodi bwlio a throseddau casineb.[6]

# Nifer yr achosion o droseddau casineb

Er bod y Swyddfa Gartref yn cyhoeddi ystadegau ar droseddau casineb yn erbyn dioddefwyr sy'n oedolion (digwyddiadau sy'n cael eu riportio a'r rhai nad ydynt yn cael eu riportio)[7], hyd eithaf ein gwybodaeth nid oes unrhyw ddata swyddogol ar gael am ddim ar nifer yr achosion o droseddau casineb a digwyddiadau yn erbyn CYP yng Nghymru a Lloegr. Mae'r bwlch hwn mewn gwybodaeth yn amharu ar allu llunwyr polisi a chyrff comisiynu i ddod i ddeall maint y broblem er mwyn datblygu gwasanaethau a pholisïau effeithiol.

Serch hynny, mae data gan amrywiol sefydliadau yn dangos cynnydd mewn troseddau casineb yn erbyn CYP yn ystod y blynyddoedd diwethaf: canfu'r NSPCC fod troseddau casineb hiliol yn erbyn plant yn 2018 wedi cyrraedd y lefel uchaf mewn tair blynedd.[8] Nododd sefydliadau eraill hefyd gynnydd sylweddol mewn troseddau casineb. Roedd data gan 29 o heddluoedd yng Nghymru a Lloegr yn dangos cynnydd rhwng 2015/16 a 2016/17 yn nifer y troseddau casineb a gafodd eu riportio i'r heddlu oedd wedi digwydd mewn ysgolion a cholegau neu'n agos atynt. Yn fwy penodol, adroddwyd cynnydd mewn troseddau casineb yn ymwneud â hunaniaeth drawsryweddol (cynnydd o 167%), cyfeiriadedd rhywiol (cynnydd o 141%), anabledd (112%), ethnigrwydd (48%), a chrefydd neu gred (37%).[9] Yn yr un modd, datgelodd cais Rhyddid Gwybodaeth gan dîm '5 Live Investigates' BBC Radio gynnydd o 149% mewn troseddau casineb anabledd yn erbyn plant 16 mlwydd oed ac iau a riportiwyd i'r heddlu. Mae hwn yn gynnydd mwy na'r hyn a adroddwyd ar gyfer y boblogaeth oedolion ar amser tebyg (101%).[10]

Efallai bod cynnydd mewn troseddau casineb dros y blynyddoedd diwethaf wedi cael ei ysgogi gan welliannau mewn cofnodi troseddau gan yr heddlu neu gan welliannau mewn sianeli riportio ac ymwybyddiaeth. Serch hynny, gall ffigurau gwirioneddol dioddefwyr ifanc fod yn llawer uwch, er, hyd eithaf ein gwybodaeth, nid oes amcangyfrif o nifer y troseddau a digwyddiadau casineb nad ydynt wedi cael eu riportio yn ymwneud â phobl ifanc. Mae'r Swyddfa Gartref wedi amcangyfrif nad yw tua 47% o ddigwyddiadau troseddau casineb sy'n cynnwys oedolion sy'n ddioddefwyr byth yn cael eu riportio i'r heddlu, a gallai hyn awgrymu bod troseddau casineb hefyd yn cael eu tangynrychioli ar gyfer CYP.[11]

Mae tystiolaeth o amrywiol ffynonellau hefyd yn awgrymu bod llawer o CYP â nodweddion gwarchodedig, a'u teuluoedd, yn dioddef troseddau casineb. Nododd tua 79% o rieni plentyn anabl fod sylwadau sarhaus wedi'u gwneud tuag atynt a'u plentyn naill ai ar gyfryngau cymdeithasol neu wyneb yn wyneb; ac mae 57% o rieni plant anabl yn dweud bod sylwadau sarhaus wedi cael eu gwneud tuag atyn nhw mewn lleoliad cyhoeddus.[12]

Adroddodd yr Arolwg Llais Ieuenctid fod 47% o CYP wedi gweld cynnwys hiliol, neu gynnwys sy'n hyrwyddo casineb neu wahaniaethu. Roedd rhyw 24% yn ystyried troseddau casineb yn broblem fawr yn eu hardal a 18% yn eu hysgol.[13]

Mae troseddau casineb hefyd yn gyffredin ar gyfryngau cymdeithasol. Mae tystiolaeth a data ar gasineb a chasineb seiber yn dal i fod ychydig yn gyfyngedig, ac mae angen gwell data ar raddfa, natur ac effaith casineb seiber a throseddau casineb ar CYP. Fodd bynnag, mae arwyddion bod yr amgylchedd ar-lein yn fan lle mae CYP yn fwyaf tebygol o brofi casineb, o'i gymharu â lleoliadau all-lein fel yn yr ysgol.[14]

Er enghraifft, yn y Ffindir, nododd Oksanen a chydweithwyr fod 67% o bobl ifanc 15 i 18 mlwydd oed wedi cael eu hamlygu i ddeunydd casineb ar gyfryngau cymdeithasol a 21% yn ddioddefwyr deunydd o'r fath. Roedd y deunydd casineb y daeth cyfranogwyr yr astudiaeth hon ar ei draws yn fwyaf cyffredin yn targedu cyfeiriadedd rhywiol (68%), ymddangosiad corfforol (61%), ethnigrwydd neu genedligrwydd (50%), ac i raddau llai credoau crefyddol (43%), rhywedd (38%) ) ac anabledd (31%).[15] Ar ben hynny, canfu astudiaeth ryngwladol gyda chyfranogwyr rhwng 15 a 30 mlwydd oed o bedair gwlad fod tua 53% o UDA, 48% o'r Ffindir, 39% o Brydain a 31% o gyfranogwyr o'r Almaen wedi nodi eu bod yn dyst i gasineb seiber; a nododd 16% o UDA, 10% o Ffindir, 12% o Brydain a 4% o gyfranogwyr o'r Almaenwyr eu bod wedi cael eu targedu'n bersonol gan gasineb seiber.[16] Yn fwy diweddar, canfu astudiaeth gyda chyfranogwyr o Ffrainc (N=1,889) rhwng 11 a 20 mlwydd oed fod tua 57% o'r cyfranogwyr wedi cael eu hamlygu i gasineb ar-lein, bod tua 10% wedi'u herlid trwy gasineb ar-lein ar wefannau rhwydweithio cymdeithasol, a 5% wedi cyhoeddi neu rannu deunydd casineb ar-lein.[17] Yn ogystal â hynny, canfu astudiaeth gyda saith gwlad Ewropeaidd gyda chyfranogwyr 11 i 16 mlwydd oed fod amlygiad i gasineb seiber wedi codi o 13% yn 2010 i 20% yn 2013.[18]

Gall data ar nifer yr achosion o fwlio ar sail hunaniaeth gynorthwyo i ddeall nifer yr achosion o droseddau a digwyddiadau casineb ymhlith CYP. Canfu astudiaeth ymchwil ar raddfa fawr a gynhaliwyd gan Stonewall fod 55% o CYP LGBT yn y DU wedi profi bwlio homoffobig mewn ysgolion uwchradd a cholegau, ac mae tri o bob pum myfyriwr a brofodd fwlio homoffobig yn dweud nad wnaeth athrawon oedd yn dyst i hyn ymyrryd.[19] Yn UDA, darganfuwyd bod bron i 82% o CYP LGBT+ wedi'u targedu gan fwlio homoffobig geiriol a nododd 60% fod rhywun wedi ymosod arnyn nhw oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol.[20] Canfu astudiaeth fawr arall o UDA fod naw o bob deg CYP LGBT wedi bod yn destun aflonyddu yn yr ysgol oherwydd eu hunaniaeth rywiol. O'r CYP oedd yn destun aflonyddu, nododd 85% eu bod dioddef aflonyddu llafar, nododd 40% eu bod wedi dioddef aflonyddu corfforol, a nododd 19% eu bod wedi dioddef ymosodiad corfforol.[21]

At hynny, mae dadansoddiad o'r Astudiaeth Carfan Ieuenctid a'r Astudiaeth Hydredol o Bobl Ifanc yn Lloegr yn dangos bod 81% o blant Blwyddyn 11 ag anghenion addysgol arbennig, neu'r rhai mae eu hanabledd yn effeithio ar eu haddysg, wedi nodi eu bod wedi cael eu bwlio yn ystod y tair blynedd diwethaf o gymharu â 65% o'r rheini heb anabledd.[22] Yn yr un modd, canfu Mencap fod 82% o blant ag anabledd dysgu yn y DU yn cael eu bwlio trwy gydol eu hoes.[23] Mae chwech o bob deg plentyn ag anabledd dysgu yn destun mathau corfforol o fwlio ac mae 77% o CYP ag anabledd dysgu yn cael eu cam-drin yn llafar. Adroddodd y CYP mai'r lle mwyaf cyffredin i'r digwyddiadau hyn ddigwydd oedd yr ysgol; profodd wyth o bob deg dioddefwr CYP fwlio yn yr ysgol. Nodwyd lleoedd eraill hefyd. Cafodd tri o bob deg dioddefwr eu bwlio allan ar y stryd, yn y parc ac ar y bws ac roedd hanner y dioddefwyr ag anabledd dysgu wedi cael eu bwlio mewn mwy nag un lle.[24] Ar ben hynny, canfu arolwg o 1,400 o rieni â phlant awtistig a gynhaliwyd gan y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol fod 40% o CYP ag awtistiaeth a 60% o CYP ag awtistiaeth Asperger neu awtistiaeth gweithredu lefel uchel wedi cael eu bwlio yn yr ysgol.[25]

Cofnododd Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth gynnydd cyflym o 50.2% yn nifer y digwyddiadau hiliol a riportiwyd yn yr ysgolion a gynhelir yng Nghymru rhwng 2015/16 a 2016/17. Pwysleisiodd ei adroddiad fod y ffigur gwirioneddol yn debygol o fod hyd yn oed yn uwch oherwydd riportio anwastad a diffyg ystadegau gan rai awdurdodau lleol.[26] At hynny, canfu ymchwil ddiweddar gan Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth gydag athrawon a staff cymorth o ysgolion ledled Cymru fod 44% o'r 1,058 o ymatebwyr yn ymwybodol bod disgybl wedi dioddef gwahaniaethu oherwydd nodwedd allweddol; ac mae 25% o'r ymatebwyr wedi arsylwi, ymateb i, neu wedi cael disgybl yn riportio gwahaniaethu ar sail hil yn ystod y 12 mis diwethaf.[27] Yn ogystal, canfu adroddiad gan BeatBullying gyda 800 CYP fod un o bob pedwar plentyn yn cael ei fwlio oherwydd ei ffydd. Y mathau mwyaf cyffredin o fwlio yw bwlio llafar (19.9%), seicolegol neu emosiynol (17.3%) a chorfforol (11.3%). Profwyd seiber-fwlio mewn 6% o achosion ac mae 9% wedi cael eu bwlio oherwydd y symbolau crefyddol maen nhw'n eu gwisgo neu'n eu cyflwyno.[28]

Mae un astudiaeth ar raddfa fach (gyda 18 CYP a 24 rhiant) ar brofiadau Sipsiwn a Theithwyr Sioe yn ysgolion yr Alban yn rhoi cipolwg ar fywydau'r CYP hyn. Roedd plant Sipsiwn a Theithwyr Sioe yn profi bwlio a galw enwau yn aml yn seiliedig ar eu cefndiroedd hiliol ac ethnig, ac yn aml nid ydy'r rhain yn cael eu cydnabod gan eu hysgol. Nododd rhieni eu bod yn credu bod galw enwau yn agwedd anochel ar anfon eu plant i'r ysgol.[29]

At hynny, mae rhai adroddiadau o'r UDA yn nodi y gall plant gael eu herlid gan staff ysgol. Dywedodd Mwslimiaid ifanc yn UDA fod gweinyddwyr ysgolion, cyfoedion ac athrawon yn gwahaniaethu yn eu herbyn.[30] Yn yr un modd, canfu Dupper a chydweithwyr fod cyfranogwyr Mwslimaidd ac Iddewig wedi dioddef digwyddiadau bwlio a chasineb ar sail hunaniaeth gan athrawon a gweinyddwyr ysgolion.[31]

CYP yn dyst i fwlio ar sail hunaniaeth hefyd. Canfu ymchwil a gynhaliwyd gan Barnardo's Cymru fod 58% o'r cyfranogwyr wedi bod yn dyst i fwlio oherwydd anabledd, 58% oherwydd homoffobia, a 51% oherwydd hil neu dreftadaeth ddiwylliannol. Gwelwyd y bwlio hwn ar sail hunaniaeth mewn ysgolion a lleoliadau cymunedol.[32]

# Effaith troseddau a digwyddiadau casineb ar CYP

Er gwaethaf y ffaith ei bod yn broblem gymdeithasol gynyddol, mae'r dystiolaeth am effaith troseddau a digwyddiadau casineb ar CYP yn gyfyngedig. Serch hynny, mae peth tystiolaeth yn dangos effaith niweidiol troseddau a digwyddiadau casineb ar CYP.

Mae ymchwil flaenorol wedi canfod bod CYP wedi ceisio newid eu hymddangosiad oherwydd eu bod yn cael eu targedu am sut maen nhw'n edrych. Er enghraifft, maen nhw wedi bod yn defnyddio colur i wneud eu hwynebau'n wynnach.[33]

Dywedodd CYP eu bod yn teimlo'n llai diogel hefyd. Canfu Cymru Ifanc fod 24% o gyfranogwyr yn ei harolwg yn teimlo'n anniogel o ganlyniad i erledigaeth yn deillio o droseddau casineb. Arweiniodd hyn hefyd atynt yn teimlo'n fwy ynysig wrth iddynt dynnu eu hunain allan o ryngweithio cymdeithasol gyda ffrindiau a theulu.[34]

Mae dod i gysylltiad ag iaith atgas yn creu teimladau o ofn ymhlith CYP hefyd. Gall yr ofn hwn arwain at broblemau ffisiolegol ac emosiynol ac mae'n ei gwneud hi'n anodd i rai myfyrwyr ganolbwyntio yn yr ysgol, gan arwain at ddirywiad mewn perfformiad academaidd. Yn y pen draw, gall myfyrwyr sy'n dioddef dro ar ôl tro o droseddau casineb ac aflonyddu ildio i deimladau o gynddaredd a dechrau ymwneud ag ymddygiad ymosodol.[35]

Yn yr un modd, disgrifiodd CYP o'r gymuned Fwslimaidd yng Nghanada eu bod yn cael eu targedu'n gyson, eu gorlethu, eu gwthio i'r cyrion, yn teimlo'n anniogel, ac yn ofni cael eu herlid am bwy ydyn nhw a'r hyn maen nhw'n credu ynddo. Roedd bechgyn yn teimlo'n ddi-rym i amddiffyn eu mamau a'u chwiorydd pan fyddan nhw'n destun aflonyddu yn gyhoeddus am eu hymddangosiad.[36]

Ar ben hynny, mae erledigaeth troseddau casineb hefyd wedi cael effaith ar deuluoedd cyfan. Er enghraifft, roedd llawer o rieni plant anabl yn teimlo'n ynysig ac yn nodi diffyg cefnogaeth a dealltwriaeth gan gymdeithas.[37] Mae erledigaeth drwy gasineb seiber yn cael effaith niweidiol hefyd. Canfu ymchwil ddiweddar o'r DU nododd 37% o bobl ifanc eu bod yn ddig, 34% wedi cynhyrfu a 30% mewn sioc ar ôl cael eu hamlygu i ddeunydd casineb seiber.[38] Mewn astudiaeth arall gyda chyfranogwyr 15 i 18 mlwydd oed o'r Ffindir, roedd dod i gysylltiad â chasineb seiber yn gysylltiedig ag ymlyniad gwael â'r teulu ac erledigaeth gorfforol.[39]

Gall bod yn dyst i droseddau casineb hefyd gael effaith negyddol ar CYP. Canfuwyd y gall myfyrwyr sy'n dyst i achosion o droseddau casineb dro ar ôl tro ar fyfyrwyr eraill ddioddef effaith emosiynol a seicolegol sy'n hafal i ddioddefwr uniongyrchol y gamdriniaeth.[40]

Gall peth tystiolaeth o ymchwil ar fwlio ar sail hunaniaeth hefyd daflu goleuni ar effaith troseddau a digwyddiadau casineb. Canfu astudiaeth ymchwil a oedd yn edrych ar CYP ag anabledd dysgu yn y DU fod wyth o bob deg yn ofni mynd allan oherwydd bwlio. Mae arnyn nhw ofn mynd i'r ysgol, y parc ac allan ar y stryd. O ganlyniad i fwlio, stopiodd dros hanner y plant ag anabledd dysgu fynd i'r lleoedd lle'r oedd y bwlio'n digwydd. Mae rhai plant ag anabledd dysgu wedi cael eu gorfodi i newid ysgolion i ddianc rhag bwlio, sy'n tarfu ar eu haddysg yn fawr. At hynny, gall yr holl effeithiau negyddol hyn ar y plant arwain at effeithiau hirhoedlog pan fyddan nhw'n dod yn oedolion. Os bydd cyfleoedd iddyn nhw ddysgu a datblygu yn cael eu gwrthod oherwydd eu bod nhw'n cael eu bwlio fel plant, byddant yn ei chael hi'n anoddach datblygu eu sgiliau a'u hyder mewn bywyd fel oedolion. Mae hyn wedyn yn ei gwneud hi'n fwy tebygol y byddant hefyd yn dargedau ar gyfer cam-drin fel oedolion.[41]

Roedd ymchwil ar effaith bwlio ar CYP LGBTQ yn portreadu llun tebyg. Canfu astudiaeth ymchwil ar raddfa fawr yn UDA gyda 23,001 o fyfyrwyr fod erledigaeth ddifrifol trwy fwlio yn gysylltiedig â chyflawniadau academaidd is ymhlith myfyrwyr LGBTQ ac yn gysylltiedig â dyheadau addysgol is.[42] Dangosodd ymchwil a gynhaliwyd yng Ngogledd Iwerddon ganlyniadau tebyg – cyflawnodd 19% o CYP LGBT a gafodd eu bwlio am gyfeiriadedd rhywiol yn yr ysgol ganlyniadau is na'r disgwyl a gadawodd 10% yr ysgol yn gynharach nag y byddent wedi'i obeithio.[43] Mewn astudiaeth Ewropeaidd a arolygodd CYP LGBT yng Nghroatia, Denmarc, Iwerddon, yr Eidal a Gwlad Pwyl, nododd ymatebwyr eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gadael allan neu eu hynysu, yn ei chael hi'n anodd canolbwyntio, yn cael marciau is, yn colli dosbarthiadau neu newid ysgolion o ganlyniad i fwlio homoffobig a thrawsffobig.[44] Mae gan CYP a adawodd yr ysgol yn gynnar lai o gymwysterau, sydd yn ei dro yn dylanwadu ar ragolygon cyflogaeth yn y dyfodol ar gyfer myfyrwyr sy'n dioddef bwlio homoffobig a thrawsffobig.[45]

Yn yr un modd, nododd rhieni yr oedd eu plant yn ddioddefwyr bwlio hiliol mewn ysgolion eu bod wedi tynnu eu plant allan o'r ysgol pan na chafodd y bwlio hiliol ei ddatrys, ac mewn rhai achosion symudodd y teulu cyfan i ardal wahanol fel y dewis olaf i atal eu plant rhag cael eu bwlio.[46]

Mae bwlio am ffydd a chredoau crefyddol hefyd yn cael effaith negyddol. Canfu astudiaeth a oedd yn edrych ar CYP sy'n cael eu bwlio oherwydd credoau crefyddol eu bod yn aml yn dechrau cwestiynu eu ffydd, yn stopio siarad amdano, neu hyd yn oed yn teimlo cywilydd amdano. Effeithiwyd ar allu'r dioddefwyr i ganolbwyntio yn yr ysgol ynghyd ag effeithio ar eu hyder a'u hunan-barch. Fe wnaeth iddyn nhw deimlo dan straen ac yn ddig ac mewn rhai achosion fe wnaethon nhw hefyd arwain at hunan-niweidio, yfed alcohol neu gymryd cyffuriau o ganlyniad.[47]

# Ceisio cymorth, anghenion a chefnogaeth

Mae'r adolygiad o'r llenyddiaeth yn dangos bod y wybodaeth am ymddygiad ceisio cymorth CYP sydd wedi cael eu heffeithio gan droseddau a digwyddiadau casineb, a'u hanghenion cymorth, yn gyfyngedig iawn.

Mae'r llenyddiaeth yn awgrymu nad yw CYP sy'n dioddef troseddau casineb a bwlio ar sail hunaniaeth yn aml yn ymddiried yn eu rhieni na staff yr ysgol. Yn wir, canfu ymchwil flaenorol nad yw mwyafrif y CYP yn dweud wrth rieni am gael eu herlid drwy droseddau casineb hiliol.[48]

Mae peth tystiolaeth yn dangos y gall y duedd hon newid gydag oedran. Canfuwyd, ar ôl dod i gysylltiad â chasineb seiber, fod oddeutu 18% o bobl ifanc iau (13–15 mlwydd oed) wedi nodi y byddent yn siarad â rhiant neu oedolyn arall o gymharu â 5% o bobl ifanc hŷn (16–18 mlwydd oed).[49]

Pan wnaeth CYP ymddiried mewn oedolion a rhoi gwybod am gamdriniaeth, nid yw'r gefnogaeth a'r driniaeth maen nhw wedi'i chael bob amser yn foddhaol. Ni chafodd pedwar o bob deg CYP ag anabledd dysgu a ddywedodd wrth athrawon am fwlio unrhyw gymorth ac ni ddaeth y bwlio i ben.[50] Yn yr un modd, canfu'r Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol na chymerodd yr ysgol unrhyw gamau mewn 44% o achosion ar ôl i achos gael ei riportio fod plentyn ag awtistiaeth yn cael ei fwlio.[51] Adroddwyd canfyddiadau tebyg gan ddisgyblion Mwslimaidd.[52]

Ar ben hynny, canfu tystiolaeth o ymchwil oedd yn edrych ar gefnogaeth i CYP LGBTQ ymatebion gwael neu annigonol i fwlio homoffobig ar sail hunaniaeth gan rai ysgolion.[53] Er bod rhai athrawon wedi ceryddu myfyrwyr ar lafar am ddefnyddio iaith amhriodol, ni chymerwyd unrhyw gamau pellach.[54] Ni chymerodd eraill unrhyw gamau nac ymyrryd.[55] Nododd peth ymchwil hefyd agweddau gwahaniaethol ymhlith rhai aelodau staff, a arweiniodd at lawer o fyfyrwyr LGBT yn teimlo'n ynysig ac yn agored i niwed,[56] ac yn amharod i riportio'r bwlio ar sail hunaniaeth.[57] Roedd llawer o athrawon hefyd yn teimlo'n amharod i fynd i'r afael â bwlio homoffobig oherwydd ofnau am ymateb negyddol niweidiol gan rieni, staff a myfyrwyr eraill neu oherwydd diffyg cefnogaeth gan benaethiaid ysgolion a chyrff rheoli.[58]

Pan ymatebodd ysgolion yn gyflym ac yn ddigonol i fwlio homoffobig ar sail hunaniaeth, roedd disgyblion hoyw yn llawer llai tebygol o gael eu bwlio yn yr ysgolion hyn nag mewn ysgolion lle na wnaethant ymateb i ddigwyddiadau oedd yn cael eu riportio. Roedd disgyblion hoyw yn yr ysgolion cyntaf dair gwaith yn fwy tebygol o deimlo bod eu hysgol yn lle derbyniol, goddefgar lle roeddent yn teimlo bod croeso iddynt.[59]

Canfu adroddiad gan Cymru Ifanc fod CYP yn credu y dylai fod llawer mwy o gefnogaeth ar gael i CYP sy'n dioddef bwlio neu droseddau casineb ac sy'n dioddef straen, pryder, iselder, hunan-niweidio a phroblemau iechyd meddwl eraill, trwy wasanaethau sy'n cael eu hariannu gan y llywodraeth sydd, yn eu barn nhw, angen llawer mwy o fuddsoddiad. Fe wnaethant hefyd bwysleisio'r angen am fwy o grwpiau cymorth a chwnselwyr mewn ysgolion.[60] At hynny, mynegodd CYP yr angen am fwy o hyfforddiant ac addysg i athrawon, myfyrwyr a rhieni ynghylch bwlio a throseddau casineb yn erbyn grwpiau gwarchodedig a sut i ddod â'r ymddygiadau hyn i ben. Fe wnaethant nodi nad ydyn nhw'n gwybod digon am droseddau casineb a dywedodd llawer ohonyn nhw nad oedden nhw'n derbyn unrhyw addysg amdano.[61] Adroddwyd canfyddiadau tebyg gan Brosiect Troseddau Casineb Cymru Gyfan. Yn yr astudiaeth hon, pwysleisiodd CYP yr angen am hyfforddiant ac addysg ymwybyddiaeth o droseddau casineb sy'n briodol i'w hoedran mewn ysgolion ac i ddarparu gwybodaeth i CYP ar ble i ddod o hyd i gefnogaeth os oes angen.[62]

**Mae'r papur hwn yn crynhoi tystiolaeth a gwybodaeth am CYP sydd wedi cael eu heffeithio gan droseddau a digwyddiadau casineb. Mae astudiaethau sy'n edrych ar CYP sydd wedi cael eu heffeithio gan droseddau a digwyddiadau casineb yn brin. Mae rhan fwyaf y corff hwn o wybodaeth yn cynnwys ymchwil ar CYP y gymuned LGBTQ+, tra bod llawer llai o ymchwil wedi'i wneud ar nodweddion gwarchodedig eraill. Serch hynny, mae angen llawer mwy o ymchwil i ddeall yn llawn profiad CYP sydd wedi cael eu heffeithio gan droseddau a digwyddiadau casineb, yn bennaf ar nifer yr achosion, ei effaith ac anghenion cymorth dioddefwyr ifanc.**

# Cyfeiriadau


[1] https://www.cps.gov.uk/hate-crime

[2] https://www.sophielancasterfoundation.com/index.php/news/129-11-police-authorities-now-recording-alternative-subculture-hate-crime

[3] https://www.theguardian.com/society/2019/jan/14/campaigners-and-mps-call-for-misogyny-to-be-made-a-hate

[4] College of Policing. (2014). *Hate crime operational guidance*. Coventry: College of Policing.

[5] Smith, K., Lader, D., Hoare, J., & Lau, L. (2012). *Hate crime, cyber security and the experience of crime among children: Findings from the 2010/11 British Crime Survey: Supplementary Volume 3 to Crime in England and Wales 2010/11*. Llundain: Y Swyddfa Gartref.

[6] Tippett, N., Houlston, C., & Smith, P. K. (2010). *Prevention and response to identity-based bullying among local authorities in England, Scotland and Wales*. Llundain: Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

[7] Gweler, er enghraifft – y Swyddfa Gartref. (2019). Troseddau casineb, Cymru a Lloegr, 2018/19. Llundain: Y Swyddfa Gartref.

[8] https://www.nspcc.org.uk/what-we-do/news-opinion/race-hate-crimes-against-children-reach-3-year-high/

[9] https://www.theguardian.com/society/2018/jan/29/transgender-related-hate-crime-linked-to-schools-rises

[10] https://contact.org.uk/news-and-blogs/contact-ceo-talks-to-bbc-about-149-rise-in-reported-hate-crimes-against-children/?s=hate+crime&t=all

[11] Y Swyddfa Gartref. (2018). *Troseddau Casineb, Cymru a Lloegr, 2017/18: Bwletin Ystadegol 2018*. Llundain: Y Swyddfa Gartref.

[12] Cyswllt (fel n. 10).

[13] Ramshaw, N., Charleton, B., & Dawson, P. (2018). *Youth Voice Survey 2018*. Llundain: MOPAC.

[14] Canolfan Rhyngrwyd Ddiogelach y DU. (2016). *Creating a better internet for all: Young people's experiences of online empowerment + online hate*. Y DU: Canolfan Rhyngrwyd Ddiogelach y DU

[15] Oksanen, A., Hawdon, J., Holkeri, E., Nasi, M., & Räsänen, P. (2014). Exposure to online hate among young social media users. In M.N. Warehime (Ed.), *Soul of society: A focus on the lives of children & youth* (pp. 253–273). Bingley, UK: Emerald Group Publishing Limited.

[16] Hawdon, J., Oksanen, A., & Räsänen, P. (2015). Online extremism and online hate: Exposure among adolescents and young adults in four nations. *Nordicom Information*, *37*(3–4), 29–37.

[17] Blaya, C., & Audrin, C. (2019). Toward an understanding of the characteristics of secondary school cyberhate perpetrators. *Frontiers in Education*, *4*(46). doi: 10.3389/feduc.2019.00046.

[18] Livingstone, S., Mascheroni, G., Ólafsson, K., & Haddon, L. (2014). *Children's online risks and opportunities: Comparative findings from EU Kids Online and Net Children Go Mobile*. Llundain: EU Kids Online, London School of Economics and Political Science.

[19] Guasp, A. (2012). The school report: *The experiences of young gay people in Britain's schools in 2012*. Llundain: Stonewall.

[20] Rivers, I. (2001). The bullying of sexual minorities at school: Its nature and long-term correlates. *Educational and Child Psychology*, *18*(1), 33–46.

[21] Kosciw, J. G., Greytak, E. A., Diaz, E. M., & Bartkiewicz, M. J. (2009). *The 2009 National School Climate Survey: The experiences of lesbian, gay, bisexual and transgender youth in our nation's schools*. Efrog Newydd, NY: GLSEN.

[22] DCSF. (2008). *Youth Cohort Study & Longitudinal Study of Young People in England: The activities and experiences of 16 year olds: England 2007*. Sheffield, Lloegr: Adran Addysg.

[23] Mencap. (2007). *Bullying wrecks lives: The experience of children and young people with a learning disability*. Llundain: Mencap

[24] Mencap, 2007 (as n. 23).

[25] Reid, B., & Batten, A. (2006). B is for bullied: *The experiences of children with autism and their families*. Llundain: Cymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol.

[26] Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth Cymru. (2017). *Deall hiliaeth yn ein hysgolion: Adroddiad Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth Cymru, Tachwedd 2017*. Caerdydd: Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth.

[27] Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth Cymru. (2019). *Hiliaeth yn ein hysgolion – Arolwg Cymru Gyfan Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth 2019*. Llawysgrif nas cyhoeddwyd. Caerdydd: Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth.

[28] BeatBullying. (2008). *Interfaith report*. Llundain: BeatBullying.

[29] Lloyd, G., & Stead, J. (2001). The boys and girls not calling me names and the teachers to believe me. Name calling and the experiences of Travellers in school. *Children & Society, 15*(5), 361–374.

[30] Gweler, er enghraifft: Aroian, K.J. (2012). Discrimination against Muslim American adolescents. *The Journal of School Nursing*, *28*(3), 206–213; Maes, M., Stevens, G., & Verkuyten, M. (2014). Perceived ethnic discrimination and problem behaviours in Muslim immigrant early adolescents: Moderating effects of ethnic, religious, and national group identification. *The Journal of Early Adolescence, 34*(7), 940–966; a CAIR California. (2015). *Mislabeled: The impact of school bullying and discrimination on California Muslim students*. Cyrchwyd o https://www.academia.edu/17983131/MISLABELED_The_Impact_of_School_Bullying_and_Discrimination_on_California_Muslim_Students

[31] Dupper, D. R., Forrest-Bank, S., & Lowry-Carusillo, A. (2015). Experiences of religious minorities in public school settings: Findings from focus groups involving Muslim, Jewish, Catholic, and Unitarian Universalist youths. *Children & Schools*, *37*(1), 37–45.

[32] Butler, V. (2014). *Canfyddiadau ymchwil Barnardo's Cymru o arolwg gwrth-fwlio 2013*. Barnardo's Cymru

[33] NSPCC (as n. 8).

[34] Cymru Ifanc. (2015). *Adroddiad Cymru Ifanc i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn*. Cymru: Cymru Ifanc.

[35] Wessler, S. L. (2001). Sticks and stones. *Educational Leadership*, *58*(4), 28–33.

[36] Elkassem, S., Csiernik, R., Mantulak, A., Kayssi, G., Hussain, Y., Lambert, K., Bailey, P., & Choudhary, A. (2018). Growing up Muslim: The impact of Islamophobia on children in a Canadian community. *Journal of Muslim Mental Health*, *12*(1), 3–18.

[37] Cyswllt (fel n. 10).

[38] Canolfan Rhyngrwyd Ddiogelach y DU, 2016 (fel n. 14).

[39] Oksanen, A., Hawdon, J., Holkeri, E., Näsi, M., & Räsänen, P. (2014). Exposure to online hate among young social media users. *Sociological Studies of Children & Youth, 18*(1), 253–273.

[40] Janson, G. R., & Hazler, R. J. (2004). Trauma reactions of bystanders and victims to repetitive abuse experiences. *Violence & Victims, 19*(2), 239–255.

[41] Mencap, 2007 (as n. 23).

[42] Gay, Lesbian, and Straight Education Network (GLSEN). (2009). *National School Climate Survey: The school-related experiences of our nation's lesbian, gay, bisexual, and transgender youth*. Efrog Newydd, NY: GLSEN.

[43] Carolan, F., & Redmond, S. (2003). *The needs of young people in Northern Ireland who identify as lesbian, gay, bisexual and/or transgender (LGBT)*. Belfast, Ireland: Youthnet. COC.

[44] Formby, E. (2013). *The impact of homophobic and transphobic bullying on education and employment*: *A European survey 2013*. Sheffield: IGLYO and Sheffield Hallam University.

[45] Formby, E. (2014). *The impact of homophobic and transphobic bullying on education and employment: A European survey*. Brussels: International Lesbian, Gay, Bisexual, Transgender, Queer Youth and Student Organisation (IGLYO).

[46] Funnell, C. (2015). Racist hate crime and the mortified self: An ethnographic study of the impact of victimization. *International Review of Victimology, 21*(1), 71–83.

[47] BeatBullying, 2008 (as n. 28).

[48] NSPCC (as n. 8).

[49] Canolfan Rhyngrwyd Ddiogelach y DU, 2016 (as n. 14).

[50] Mencap, 2007 (as n. 23).

[51] Cymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol. (2006). B is for bullied: *The experiences of children with autism and their families*. Llundain: Cymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol.

[52] Anwar, M. (2005). Issues, policy and practice. In T. Abbas (Ed.), *Muslim Britain: Communities under pressure* (pp. 31–46). London: Zed Books.

[53] Gweler, er enghraifft: McNamee, H., Lloyd, K., & Schubotz, D. (2008). Same sex attraction, homophobic bullying and mental health of young people in Northern Ireland. *Journal of Youth Studies*, *11*(1), 33–46; and Warwick, I., Aggleton, P., & Douglas, N. (2001). Playing it safe: Addressing the emotional and physical health of lesbian and gay pupils in the UK. *Journal of Adolescence*, *24(*1), 129–140.

[54] Zack, J., Mannheim, A., & Alfano, M. (2010). "I didn't know what to say ...": Four archetypal responses to homophobic rhetoric in the classroom. *The High School Journal*, *93*(3), 98–110.

[55] Harris Interactive and GLSEN. (2005). *From teasing to torment: School climate in America, a survey of students and teachers*. Efrog Newydd: GLSEN.

[56] Formby, E. (2013). Understanding and responding to homophobia and bullying: Contrasting staff and young people's views within community settings in England. *Sexuality Research and Social Policy, 10*, 302–316.

[57] Thornberg, R. (2011). 'She's weird!' — The social construction of bullying in school: A review of qualitative research. *Children and Society, 25*(4), 258–267.

[58] Gweler, er enghraifft: O'Higgins, N. J. (2005). *A survey of teachers on homophobic bullying in Irish second level schools*. Dublin: Dublin City University; McGuckin, C., & Lewis, C. A. (2008). Management of bullying in Northern Ireland schools: A pre-legislative survey. *Educational Research*, *50*, 9–23; and Meyer, E. (2008). Gendered harassment in secondary schools: Understanding teachers' (non) interventions. *Gender and Education*, *20*, 555–570.

[59] Guasp, 2012 (fel n. 19).

[60] Cymru Ifanc, 2015 (fel n. 34).

[61] Cymru Ifanc, 2015 (fel n. 34).

[62] Williams, M., & Tregidga, J. (2013). *Trosolwg ymchwil a chrynodeb gweithredol Prosiect Ymchwil Troseddau Casineb Cymru Gyfan*. Caerdydd: Race Equality First.



VS CYMRU

# VICTIM SUPPORT

WALES | CYMRU

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

Rydym yn elusen annibynnol sy'n cynnig cymorth cyfrinachol am ddim i bobl sy'n cael eu heffeithio gan droseddau a digwyddiadau trawmatig.

I gael gwybodaeth a chymorth, cysylltwch â ni drwy:

- Galw: Llinell gymorth **08 08 16 89 111**
- Defnyddio Testun y Genhedlaeth Nesaf (ychwanegwch **18001** cyn unrhyw un o'n rhifau ffôn)
- Ar-lein: **victimsupport.org.uk**

I gael gwybod sut y gallwch chi ein helpu, ewch i **victimsupport.org.uk/get-involved**

**victimsupport.org.uk**

VictimSupport
@VictimSupport
victimsupport_uk

Cyhoeddwyd gan VS
Llywydd HRH The Princess Royal

Victim Support, 1 Bridge Street, Derby DE1 3HZ
Ffôn: 020 7268 0200

Elusen gofrestredig rhif: 298028 Company no: 2158780
Registered in England. Limited by guarantee.
Registered office as above.

Business Disability Forum
Building disability-smart organisations

Leaders in Diversity

Stonewall DIVERSITY CHAMPION

Delweddaeth: ©Getty Images
Mawrth 2020 | P2555 © 2020 Victim Support